Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adolygiad o adroddiadau Adran 19 Llywodraeth Leol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd eithafol yng Nghymru, 2020-21

Yr Athro Elwen Evans CB



# Cynnwys

**5 Rhagair a Chrynodeb Gweithredol**

**9 Crynodeb o Argymhellion**
9 Argymhellion polisi strategol
10 Argymhellion gweithredu technegol
11 Argymhellion ychwanegol

**12 Cyflwyniad**

**12 Crynodeb o Lifogydd yng Nghymru yn ystod 2020 a 2021**
12 Cyflwyniad
13 Chwefror 2020 – y sefyllfa dywydd
14 Llifogydd
14 Effeithiau llifogydd – cartrefi, busnesau a seilwaith

**16 Nod ac Amcanion y Strategaeth Lifogydd Genedlaethol**

**17 Trosolwg o Reoli Perygl Llifogydd yng Nghymru**

**20 Y Broses Rheoli Risg yng Nghymru**

**21 Cyllid a Buddsoddiad Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

**22 Ymateb Brys – Ymatebwyr Categori 1 a 2**

**23 Adolygiad o Adroddiadau Adran 19 ac Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei Ymateb i Stormydd mis Chwefror 2020**

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47861, ISBN digidol 978-1-83504-612-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**24 Cylch Gorchwyl**

**25 Ymchwiliadau Adran 19**

25 Awdurdodau Lleol: ymchwiliadau
27 Y sefyllfa bresennol: ymchwiliadau adran 19

**28 Dysgu o Ddigwyddiadau Llifogydd a Lleihau Perygl Llifogydd**

28 Diweddariad Awdurdodau Lleol gan gynnwys ymchwiliadau adran 19
30 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
31 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
31 Cyngor Sir Gaerfyrddin
31 Cyngor Caerdydd
31 Cyngor Sir Ceredigion
33 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
34 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
35 Cyngor Sir Ddinbych
35 Cyngor Sir y Fflint
35 Cyngor Gwynedd
37 Cyngor Ynys Môn
38 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
39 Cyngor Sir Fynwy
40 Cyngor Castell-nedd Port Talbot
41 Cyngor Dinas Casnewydd
41 Cyngor Sir Penfro
42 Cyngor Sir Powys
42 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
44 Cyngor Abertawe
45 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
45 Cyngor Bro Morgannwg
47 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**47 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i Adrodd ar Ddigwyddiadau Llifogydd Adran 19**

**48 Gweithredu Argymhellion Adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o'i Ymateb i Lifogydd mis Chwefror 2020**

**49** **Prif Ganfyddiadau**

**50** **Ymgynghoriad Aelodau'r Senedd**

**53** **Casgliadau a'r Camau Nesaf**

**55** **Safbwyntiau a sylwadau**

**56** **Atodiad A**

**58** **Atodiad B**
58 Dolenni Defnyddiol
60 Rhestr Ymgyngoreion
61 Termau Defnyddiol

# Rhagair a Chrynodeb Gweithredol

Diolch am fy nghyfarwyddo i ymgymryd â'r "adolygiad annibynnol o adroddiadau adran 19 Llywodraeth Leol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd eithafol yn ystod gaeaf 2020-2021" hwn ar bapur.

Pennwyd cwmpas yr adolygiad hwn gan y Cylch Gorchwyl fel y'i cytunwyd rhwng y Gweinidog Newid Hinsawdd ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru o dan y Cytundeb Cydweithio/Ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu. Nid cynnal ymchwiliad cyhoeddus eang, yn dod o hyd i ffeithiau ac yn cymryd tystiolaeth i ymatebion Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddigwyddiadau llifogydd gaeaf 2020-2021 yw ei gylch gwaith. Mae'n adolygiad o'r broses o adrodd ar y digwyddiadau hynny wedi'i baratoi o dan ddarpariaeth adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ("adroddiadau adran 19"). Fy ngobaith yw y bydd yr adolygiad hwn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at asesiad o ble a sut mae adroddiadau adran 19 wedi'u lleoli o fewn y seilwaith rheoli llifogydd ehangach a'i fod yn helpu i hysbysu penderfyniadau ynghylch a yw unrhyw newid i'r drefn adran 19 bresennol yn angenrheidiol neu'n ddymunol.

Fy nghasgliad yw bod newidiadau yn angenrheidiol ac yn ddymunol. Mae graddau llawn a natur y newidiadau hynny yn dibynnu ar nifer o ffactorau a nodir yn ddiweddarach yn y crynodeb gweithredol hwn a fy argymhellion.

Hysbysir yr adolygiad hwn gan ymwybyddiaeth o effaith ofnadwy llifogydd ar bobl, busnesau, lleoedd a chymunedau Cymru. Rwyf hefyd yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn rhan o fframwaith Cymru ar gyfer dylunio cynlluniau yn y dyfodol a ffyrdd o weithio rhwng cyrff cyhoeddus. Gall canlyniadau llifogydd fod yn aruthrol ac yn aml yn ddinistriol, pa un a ydynt yn cael eu hachosi gan y llifogydd ei hun neu gan ofn llifogydd (a ystyrir fel risg bresennol a/neu falltod yn y dyfodol) a pha un a ydynt yn deillio o afon, dŵr wyneb, arfordirol, tomen lo neu agweddau agored i niwed eraill. Mae'r adolygiad y gofynnwyd i mi ei gynnal yn canolbwyntio ar adroddiadau adran 19 yn benodol o safbwynt eithafoedd llifogydd gaeaf 2020-2021.

I fod yn effeithiol, darparu gwybodaeth eglur a chyson sy'n helpu i gyfrannu at welliant parhaus a gwell integreiddiad ar draws holl elfennau'r seilwaith rheoli risg ddylai fod amcan cyffredin adroddiadau llifogydd ar ôl y digwyddiad. Mae fy argymhellion, o reidrwydd, wedi'u cyffredinoli. Mae'n rhaid i benodoldeb ddibynnu ar ymgynghori a chydgysylltu rhwng y cyrff a'r asiantaethau sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd a'i liniaru. Mae'r adolygiad hwn yn rhoi sylw i un agwedd ar ddarlun llawer mwy. Mae'r darlun mwy hwnnw yn cael sylw gweithredol mewn nifer o wahanol fforymau sy'n cynnwys adolygiadau, archwiliadau ac asesiadau eraill.

Rwy'n ystyried yr adroddiad hwn fel darn mewn jig-so. Er mwyn sicrhau bod mesurau rheoli perygl llifogydd Cymru mor gadarn ac effeithiol â phosibl, mae'n hanfodol rhoi'r holl ddarnau at ei gilydd. Fel y soniwyd uchod, mae gwaith yn cael ei wneud i nodi dulliau integredig a chyfannol o ymdrin â pheryglon llifogydd â phwyslais ar weithio partneriaeth effeithiol. Mae'n bwysig bod yr adroddiad hwn a'i argymhellion yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad seilwaith rheoli ac ymateb i risg cynhwysfawr, o ddechrau'r broses i'w diwedd llawer ehangach. Mae'n hanfodol, wrth gwrs, bod y darnau ar wahân hyn o waith yn cael eu tynnu ynghyd i sicrhau dull cydgysylltiedig, integredig, system gyfan sy'n cynnwys profion, her a rheoleiddio fel sy'n briodol. Dyma'r bwriad yn amlwg, ac mae'n rhaid i mi bwysleisio'r pwysigrwydd o gyflawni hyn.

Mae adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn darparu (1) bod yn rhaid i Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol o ddod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, **i'r graddau y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol** (fy mhwyslais i), ymchwilio i ba Awdurdodau Rheoli Risg sydd â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd perthnasol a pha un a yw pob un o'r awdurdodau rheoli perygl hynny wedi cyflawni neu'n bwriadu cyflawni'r swyddogaethau hynny; a (2) pan fo awdurdod yn cynnal ymchwiliad o'r fath, bod yn rhaid iddo gyhoeddi'r canlyniadau a hysbysu unrhyw Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol.

Ceir heriau o ran y dehongliad statudol o'r adran hon. Nid yw'n cyflwyno fframwaith statudol ynghylch diben diffiniedig neu gynnwys rhagnodedig ymchwiliad. Nid yw'n cyfeirio at baratoi adroddiad. O un safbwynt, mae'r gofyniad ("rhaid" yn amodol ar brawf goddrychol o'r hyn y mae'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn ei ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol) wedi'i gyfyngu i "ymchwilio" pa awdurdodau rheoli perygl llifogydd sydd â swyddogaethau perthnasol a pha un a ydynt wedi cyflawni neu'n mynd i gyflawni'r swyddogaethau hynny. Ar y cyfan, mabwysiadwyd dehongliadau ehangach o'r adran (yn rhannol, yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion) ond mae'r diffyg eglurder hwn yn arwain yn anochel at wahanol ddehongliadau a gwahanol ddulliau. Pa bynnag safbwynt a gymerir o eiriad adran 19, wrth gynnal yr adolygiad hwn rwyf wedi dilyn yr arfer a dderbynnir o gyfeirio at adroddiadau ôl-ddigwyddiad llifogydd fel "adroddiadau adran 19."

Yn ystod ac ar ôl digwyddiadau llifogydd, mae Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ynghyd â llawer o asiantaethau, awdurdodau a chyrff eraill) yn ymgymryd â chynnal a chydgysylltu amrywiaeth o weithgareddau hanfodol fel gweithrediadau adfer brys, trwsio asedau, ymgysylltiadau cymunedol ac ymatebion angenrheidiol eraill. Bydd lefel a natur y galw sy'n bodoli am adnoddau Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn amrywio o un digwyddiad i'r llall: ond mae'n anochel y bydd blaenoriaethu adnoddau-dyraniad yn effeithio ar baratoad adroddiadau ymchwilio adran 19.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Hydref 2020) yn pennu nifer o feini prawf **goddrychol** o ran y cynnwys a awgrymir ar gyfer adroddiadau adran 19: e.e. Awdurdodau Lleol i benderfynu ar hyd a chymhlethdod, heb unrhyw drothwy sbarduno gorfodol (disgwyliad y bydd adroddiadau yn cael eu paratoi pan fydd 20 neu fwy o gartrefi yn cael eu heffeithio gan lifogydd mewnol ond y mabwysiadwyd gwahanol ddulliau). Er bod canllawiau Sefydliad Safonau Prydeinig (BS 85600:2017) i gynorthwyo i lunio ymchwiliadau rheoli perygl llifogydd, eto nid yw hyn yn orfodol, a materion i'r Awdurdod Lleol adrodd ei benderfynu yw'r dull a'r lefel o fanylder o hyd.

Mae'n anochel y bydd materion fel capasiti a gallu (o ran arbenigedd "mewnol" sydd ar gael) mewn timau Awdurdodau Lleol, blaenoriaethu gofynion (mae'n bosibl iawn y bydd darparu ymatebion brys i lifogydd, datblygu cynlluniau lliniaru rhag llifogydd a chydymffurfio â swyddogaethau statudol gorfodol yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau uwch na pharatoi adroddiadau ôl-lifogydd) yn effeithio ar baratoad, maint a siâp adroddiadau adran 19. Nid yw'r adroddiadau yn ddull angenrheidiol ar gyfer gwneud cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru neu o ffynhonnell arall nac ar gyfer pennu blaenoriaethau Awdurdodau Lleol o ran mynd i'r afael ag anghenion a phryderon cymunedol. Mae'n bosibl iawn y gallai unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau helpu i hysbysu "camau nesaf", ond nid yw'n rhagofyniad.

Yr hyn sy'n gwbl hanfodol yw bod yr Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol, gan gynnwys yr holl awdurdodau sydd wedi'u heffeithio (arweiniol, wedi'u heffeithio ac yn effeithio), cwmnïau dŵr, a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mewn cydweithrediad llawn ac agos. Nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn bendant yn y drefn adran 19: ond mae ymatebion llwyddiannus i lifogydd yn amlwg yn dibynnu ar weithio rhyngasiantaeth agos ac effeithiol.

Fel y bydd yn cael ei weld o ran fanwl yr adolygiad hwn, mabwysiadwyd amrywiaeth o wahanol ddulliau ar gyfer llunio adroddiadau adran 19. Mae hyn yn anochel pan fo'r drefn adrodd yn oddrychol i raddau helaeth ac yn arwain at ddealltwriaethau gwahanol ac amrywiol ynghylch diben, blaenoriaethu, paratoad, disgwyliad, arddull, cynnwys, awduraeth, dehongliad, diffiniadau, amserlenni, ac adnoddau sydd ar gael.

Bu cydnabyddiaeth eisoes bod newid i'r drefn adran 19 yn angenrheidiol. Mae Mesur 21 yn y Crynodeb o Fesurau (ym mharagraff 338) yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (Hydref 2020) yn cynnwys y canlynol: "**rydym am i adroddiadau ymchwilio adran 19 fod yn symlach i Awdurdodau Lleol eu cynnal ac yn haws i'r cyhoedd eu deall**." Mae'r gwaith hwn mewn llaw. Mae'n cael ei arwain gan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Annibynnol yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd fy adolygiad o gymorth yn y gwaith hwn a byddwn, wrth gwrs, yn hapus i drafod fy argymhellion. Er bod cwmpas fy adolygiad yn gymharol gul, mae penderfyniadau sylfaenol ynghylch swyddogaeth bresennol (os o gwbl) adroddiadau adran 19 yn rhan bwysig o ddylunio'r seilwaith rheoli perygl llifogydd yng Nghymru.

Comisiynwyd yr adolygiad hwn fel ymarfer wrth ddesg ar bapur. Fodd bynnag, gyda chytundeb y partïon comisiynu, fe wnaeth y cylch gwaith ganiatáu sylwadau ysgrifenedig gan gohortau penodol o ymgyngoreion. Ychwanegwyd rhai ymgyngoreion ychwanegol trwy gytundeb y partïon comisiynu ac fe wnaeth hyn ymestyn yn gynorthwyol y deunydd a oedd ar gael i mi. Rwy'n ddiolchgar am yr holl gyflwyniadau yr wyf wedi eu derbyn. Maent wedi cyfrannu at drosolwg y gellir ei ddefnyddio fel sail a fframwaith ar gyfer ymgynghori a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Gan fod yr adroddiad hwn yn un wrth ddesg ar bapur, nid yw wedi'i hysbysu gan ddeialog, trafodaeth nac archwilio tystiolaeth. Rwyf wedi edrych ar yr adroddiadau adran 19 a baratowyd yng nghyswllt y llifogydd eithafol yn ystod gaeaf 2020-2021, ond wrth roi'r rhain yn eu cyd-destun rwyf wedi cymryd golwg ehangach ar addasrwydd ac ymarferoldeb adroddiadau adran 19.

Mae'r Cylch Gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried yr holl ddeunydd perthnasol a ddarparwyd yn yr adroddiadau adran 19 ac adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun (nid yw hwn yn dod o dan y ddarpariaeth adran 19, ond mae'n ffynhonnell ychwanegol ddefnyddiol). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r adolygiad hwn gael ei hysbysu gan adolygiadau, adroddiadau, canfyddiadau a pholisïau eraill er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian. Mae'n ofynnol yn benodol i mi osgoi ailadrodd adolygiadau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol (yn eang ac yn fanwl o ran eu cwmpas); adolygiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru o fregusrwydd perygl llifogydd tymor hwy seilwaith; asesiad Archwilio Cymru o reoli perygl llifogydd a'r heriau a'r archwiliadau o ddarpariaeth ac adolygiad rhagweledig Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth rheoli perygl llifogydd.

Fel y dynodwyd gan y Cylch Gorchwyl hwnnw, bu'n rhaid lleoli'r adolygiad hwn yn ofalus yng nghyd-destun ecosystem hynod gymhleth o adolygiadau, cyrff, sefydliadau, adroddiadau, ffrydiau cyllid, llinellau cyfrifoldebau ac atebolrwyddau eraill. Mae'r adroddiadau adran 19 yn rhyng-blethu ag ecosystem a seilwaith rheoli perygl llifogydd ac adrodd llawer ehangach sydd y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn, ac mae'n rhaid gweld eu bod yn gwneud hynny. Mae'n amgylchedd hynod gymhleth â llawer wedi ei wneud, llawer yn cael ei wneud a llawer i'w wneud o hyd. Dylid ystyried yr adolygiad hwn fel rhan gyfansoddol o'r amgylchedd adolygu hwnnw.

Mae gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru swyddogaeth hanfodol bwysig o ran dadansoddi, cynghori a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol strategol ar gyfer y dyfodol. Yn 2022, diwygiwyd ei gylch gwaith i gynnwys pwyslais ar yr argyfwng hinsawdd a natur. Wedi hynny, ymrwymodd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i asesu sut y gellir sicrhau bod y tebygolrwydd o lifogydd mewn cartrefi, busnesau a seilwaith cyn lleied â phosibl erbyn 2050. Mae'r gwaith hwn hefyd mewn llaw ar hyn o bryd. Yn amlwg ceir rhyngddibyniaethau rhwng gwahanol allbynnau hyn y Cytundeb Cydweithio. Mae cylch gwaith y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn llawer ehangach na'r un yr wyf i wedi fy rhwymo i weithredu yn unol ag ef.

Mae trafodaethau yr wyf wedi eu cael gyda'r partïon comisiynu wedi myfyrio ar gwmpas a chyfyngiadau'r Cylch Gorchwyl. Pwysleisiaf y pwysigrwydd o sicrhau nad yw'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal ar wahân, ond yn cael ei ystyried yn rhan o seilwaith rheoli perygl llifogydd cyffredin. Mae'n bwysig bod pawb sy'n rhan o lunio'r seilwaith hwnnw ar gyfer y dyfodol yn ystyried yn benodol swyddogaeth yr adroddiadau adran 19 o fewn cwmpas eu hadolygiadau a'u pecynnau gwaith.

Yn fy argymhellion, rwyf wedi manteisio ar themâu sy'n deillio o'r adroddiadau adran 19 sydd o fewn y cwmpas a'r cyflwyniadau ysgrifenedig yr wyf wedi eu derbyn. Rwy'n gwahodd sylw i'r manylion sydd wedi'u cynnwys ym mhrif ran yr adolygiad hwn.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y broses o gyflawni'r gwaith hwn a'i chynorthwyo.

# Crynodeb o Argymhellion

Mae nifer o benderfyniadau sylfaenol y mae angen eu gwneud sy'n canolbwyntio ar ddiben, swyddogaeth a statws adroddiadau adran 19. Mae argymhellion mwy gronynnog o ran cynnwys adroddiadau ôl-ddigwyddiad yn ddibynnol ar y penderfyniadau hynny. O'r herwydd, mae fy argymhellion wedi'u rhannu rhwng dau bennawd eang (er, yn amlwg, ceir lefelau sylweddol o orgyffwrdd rhyngddynt): argymhellion polisi strategol (fel swyddogaeth, diben a defnydd o'r adroddiadau) ac argymhellion gweithredu technegol (fel y cynnwys, y fethodoleg a lefelau adnoddau sydd eu hangen i baratoi'r adroddiadau). Bydd eglurder ynghylch diben yn effeithio ar benderfyniadau polisi a gweithredu technegol eraill, ac yn eu hysbysu.

Rwyf hefyd yn cynnwys dau argymhelliad cyffredinol arall o dan drydydd pennawd, sef "Argymhellion Ychwanegol."

## Argymhellion polisi strategol

Mae angen eglurder ynghylch diben/ion, swyddogaeth a statws adroddiadau adran 19. Awgrymaf mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion hyn yw trwy ofyn rhai cwestiynau sylfaenol. A yw adroddiadau adran 19 yn angenrheidiol? Os felly, a ydynt yn cael eu hystyried yn ddull goddrychol ar gyfer rhannu gwybodaeth neu a ddylent fod yn rhan o fframwaith rheoleiddio mwy gwrthrychol? Ceir cydnabyddiaeth eisoes bod angen newid (fel y profwyd gan Fesur 21): a yw mân newidiadau yn ddigonol neu a oes angen newidiadau mwy radical? A oes angen diwygio neu ddiddymu adran 19? A yw unrhyw newidiadau dymunol yn rhai y gellir eu cyflawni yn briodol trwy ganllawiau a chyngor?

Rwy'n argymell, yn rhan o'r adolygiadau seilwaith sy'n cael eu cynnal, y dylai fod ystyriaeth o ddiben, swyddogaeth a statws adroddiadau adran 19. Os ydynt yn mynd i fod yn rhan o fframwaith rheoleiddio sy'n gofyn am ddangosyddion perfformiad mesuradwy, cymaryddion gwrthrychol, a rheoleiddio yna mae angen newidiadau sylweddol. Os ydynt yn mynd i barhau, i bob pwrpas, i fod yn fodd o adrodd ar ymatebion i lifogydd yna mae llawer llai o newid yn angenrheidiol. Mae diffinio diben yn allweddol i'r holl benderfyniadau canlyniadol eraill.

Os yw adroddiadau ôl-ddigwyddiad yn mynd i fod yn rhan o fframwaith rheoleiddio gorfodol, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i gynllun wedi'i fynegi'n eglur sy'n nodi anghenion a chanlyniadau yn wrthrychol. Os ydynt yn mynd i barhau fel dull adrodd ôl-lifogydd, yna mae angen mwy o eglurder o hyd o ran hyd, cymhlethdod a chynnwys.

Fel y pwysleisiwyd, mae angen i unrhyw adolygiad sylfaenol o adroddiadau adran 19 fod yn rhan o drosolwg seilwaith rheoli, monitro a lliniaru perygl llifogydd ehangach sy'n rhoi sylw i gwestiynau ynghylch diben, defnydd a lleoliad o fewn yr ecosystem ehangach honno. Mae rhai o'r materion sy'n codi yn ymwneud â lleoliad adroddiadau adran 19 o fewn cyfres o groesffyrdd cymhleth rhwng y

Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Annibynnol, y Pwyllgor Seilwaith Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid eraill; rhwng polisi a gweithrediad; a rhwng cyfrifoldeb ac atebolrwydd. Byddai eglurder ynghylch lleoliad adroddiadau adran 19 o fewn y gwahanol groesffyrdd hyn yn amlwg yn helpu i ddiffinio eu diben.

Dylid gwneud penderfyniadau polisi ynghylch dyfodol adroddiadau adran 19 fel rhan annatod o'r adolygiadau ehangach. Os oes angen adroddiadau adran 19, yna mae'n rhaid sicrhau bod eu heffaith a'u gwerth mor fawr â phosibl ac mae angen iddynt fod yn rhan ystyrlon o'r ecosystem lliniaru peryglon hinsawdd. Nid yw atebion ynghylch diben, swyddogaeth a statws adroddiadau adran 19 yn rhai y gellir eu canfod ar wahân: mae angen rhoi sylw i'r cwestiynau hyn yn rhan o ddyluniad cyffredinol y seilwaith rheoli perygl llifogydd.

Yn rhan o asesiad o ddiben adroddiadau adran 19, dylai fod eglurhad ynghylch y rhyngberthynas rhwng yr adroddiadau adran 19 a'r rhwymedigaethau a'r dyletswyddau a neilltuir nid yn unig i Awdurdodau Lleol arweiniol ond hefyd i'r cyrff a'r asiantaethau eraill dan sylw. Os yw adroddiadau adran 19 yn mynd i barhau, yn gyffredinol, ar eu ffurf bresennol (â mwy o gysoni - gweler isod) mae'n angenrheidiol penderfynu a yw cyfrifoldeb am lunio'r adroddiadau yn cael ei ehangu y tu hwnt i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol. Eto, dim ond yn rhan o adolygiad seilwaith ehangach y gellir asesu'r rhyng-ddibyniaethau hyn.

Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch a ddylai fod dull ar gyfer asesu ansawdd a derbynioldeb adroddiadau adran 19 a chanlyniad/au (os o gwbl) sy'n deillio o dramgwyddau a/neu fethiannau. Mae hyn yn dychwelyd i'r cwestiwn o ddiben o fewn amgylchedd ehangach dulliau adrodd a fframweithiau cyffredin.

Mae angen ystyried geiriad adran 19, fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, yn ofalus, a'i diwygio neu ei dirymu o bosibl. Mae ei dehongli o bosibl yn ddryslyd ac yn arwain at anghysondebau o ran dealltwriaeth a dull. Mae sicrhau eglurder a chysondeb ynghylch pryd a/neu ble a/neu pam mae angen adroddiadau adran 19 yn hanfodol.

## Argymhellion gweithredu technegol

Tra'n disgwyl adolygiad polisi ehangach o adroddiadau adran 19 a/neu ôl-lifogydd, dylid blaenoriaethu drafftio a gweithredu Mesur 21.

Dylai fod mwy o gysoni'r broses adrodd adran 19 ar draws yr holl Awdurdodau Lleol arweiniol ac o fewn y Seilwaith Rheoli Perygl Llifogydd ehangach.

Ceir ffyrdd cymharol syml y gellir cysoni'r gwaith o ddrafftio adroddiadau adran 19 yn well. Gellir gwneud hyn trwy ddylunio fframwaith gwrthrychol sy'n cyflwyno disgwyliadau, yn diffinio paramedrau sbarduno, yn gorfodi amserlen ar gyfer cwblhau, yn nodi cynnwys hanfodol, yn pennu awduraeth ac yn nodi'r arbenigedd sydd ei angen i'w paratoi.

Gallai ystyriaethau ychwanegol gynnwys gofynion fformatio a thempled rhagnodedig; rhestrau ymgynghori a dolenni adborth ynghyd â rhestr o bwyntiau dysgu allweddol o ran materion penodol. Mae'r rhain i gyd yn ffyrdd posibl y gellid cysoni'r broses. Mae'n amhosibl bod yn rhagnodol ynghylch yr argymhellion hyn heb eglurder o ran diben a phroses wrth symud ymlaen.

Dylid rhoi ystyriaeth i ba un a oes angen alinio trefn adrodd ôl-ddigwyddiad llifogydd ag adran 19 neu a ellid ei darparu mewn ffyrdd eraill, anstatudol.

Dylai fod asesiad o'r gofynion arbenigol ac adnoddau, gan gynnwys amrywiaeth a natur y setiau sgiliau sydd eu hangen, wrth baratoi adroddiadau adran 19.

Mae gwaith partneriaeth agos ar draws yr holl gyrff ac asiantaethau perthnasol yn hanfodol i sicrhau adrodd a chynllunio effeithiol, cydgysylltiedig a chydlynol. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i ddiffinio'r hyn sydd ei angen mewn adrodd ôl-ddigwyddiad ond hefyd i sicrhau ei gyflawniad. At ddibenion yr adolygiad hwn, rwy'n argymell bod eglurhad o feysydd o gyfrifoldebau ac atebolrwyddau unigol ac ar y cyd fel rhwng yr awdurdodau, yr asiantaethau a'r cyrff cyfrifol.

## Argymhellion ychwanegol

Dylid rhoi ystyriaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r adroddiadau gael eu rhoi mewn storfa ganolog fel tudalen we sydd ar gael i'r cyhoedd. Byddai'n briodol cael diweddariadau tryloyw ar gynnydd ac i unrhyw adroddiadau sydd wedi'u cwblhau fod ar gael i'r cyhoedd (ac, wrth gwrs, i gyrff eraill). Byddai hyn yn cynorthwyo gyda monitro, tryloywder a hygyrchedd. Pan fo ymdrech ac adnoddau wedi cael eu cyfrannu at baratoi adroddiadau, mae'n ymddangos yn briodol iddynt fod ar gael yn rhwydd.

Dylid gwahodd Comisiwn y Gyfraith i adeiladu ar eu gwaith hyd yma a chynorthwyo i gynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth rheoli perygl llifogydd yng Nghymru. Wrth gynghori hyn, dylwn gyfeirio at y ffaith fy mod yn aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru Comisiwn y Gyfraith. Er nad wyf yn credu bod hyn yn achosi unrhyw wrthdaro buddiannau, mae'n briodol iddo gael ei nodi'n ffurfiol.

# Cyflwyniad

1. Ymrwymiad yw'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i weithio gyda'i gilydd i roi sylw i faterion a all wneud gwahaniaeth i gymunedau a phobl Cymru, a'u datrys.

2. Gan gefnogi sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r heriau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd, gofynnwyd i mi gynnal adolygiad o adrodd peryglo llifogydd, gan roi sylw penodol i adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'r adroddiad ar lifogydd mis Chwefror 2020 a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

3. Mae Awdurdodau Rheoli Risg yn cynnal ymchwiliadau yn dilyn llifogydd yn anffurfiol ac yn ffurfiol ac mae'n bwysig eu bod yn gwneud hyn i ddysgu o'r gorffennol, i fuddsoddi mewn lleihau perygl llifogydd ac i sicrhau bod cymunedau yn fwy parod ar gyfer heriau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

# Crynodeb o Lifogydd yng Nghymru yn ystod 2020 a 2021

## Cyflwyniad

4. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae stormydd a enwyd wedi dod â gwyntoedd cryfion a glaw i Gymru a gweddill y DU. Lansiwyd y broses o enwi stormydd yn 2015 gan y Swyddfa Dywydd i helpu i gyfathrebu achosion o dywydd garw i'r cyhoedd ac fe'u defnyddir pan fo'r potensial i dywydd garw achosi rhybudd tywydd oren neu goch oherwydd gwynt, glaw neu eira. Bob blwyddyn ym mis Medi, cyhoeddir rhestr newydd o enwau ar gyfer y gaeaf i ddod yn rhedeg hyd at fis Awst y flwyddyn ddilynol.

5. Gwelwyd effeithiau llawer o systemau storm yng Nghymru. Mae'r rhai o arwyddocâd diweddaraf yn cynnwys stormydd Ciara; Dennis; a Jorge ym mis Chwefror 2020 a achosodd y llifogydd mwyaf sylweddol i effeithio ar Gymru ers 1979 gan effeithio ar lawer o gymunedau ledled Cymru. Ym mis Ionawr 2021, arweiniodd storm Christoph at lifogydd o weithfeydd cloddio hanesyddol yn Sgiwen, Castell-nedd Port Talbot, ac achosodd storm Eunice ym mis Chwefror 2022 rybuddion tywydd coch ar gyfer gwyntoedd difrodol cryfion ynghyd â'r perygl o lifogydd arfordirol.

## Chwefror 2020 – y sefyllfa dywydd

6. Priodolwyd gaeaf 2020 (Rhagfyr 2019, Ionawr, Chwefror 2020) gan dywydd mwyn a gwlyb, a dywedodd y Swyddfa Dywydd mai'r cyfnod oedd y 5ed gaeaf gwlypaf i'r DU yn ei chyfanrwydd ers i gofnodion ddechrau ym 1862 a hefyd y 5ed mwyaf mwyn a gofnodwyd.

7. Croesodd tair storm a enwyd y DU un ar ôl ei gilydd ym mis Chwefror, gan arwain at law trwm a chyson drwy'r mis. Arweiniodd stormydd Ciara a Dennis at yr effeithiau mwyaf ar gymunedau â glawiad nodedig a sylweddol yn cael ei gofnodi ledled Cymru. Cofnodwyd pedair gwaith y glawiad cyfartalog hirdymor ar gyfer mis Chwefror yn y Bala, Gwynedd a chofnododd 51 o 231 o orsafoedd mesur afonydd ledled Cymru lefelau uchaf erioed newydd yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru.

8. Storm Ciara oedd y gyntaf o stormydd a enwyd mis Chwefror, ond y drydedd fwyaf difrifol o'r gaeaf ar y pryd. Arweiniodd glaw trwm cyson at lifogydd sylweddol yn y gogledd dros benwythnos 8 Chwefror, gan effeithio ar ddalgylchoedd afonydd Conwy, Dyfrdwy Uchaf ac Elwy. Cafodd cymunedau Llanrwst, Llanfair Talhaearn a Llanelwy eu heffeithio a chofnodwyd y lefelau afon uchaf ers dechrau cofnodi ar afon Elwy yn Llanelwy.

9. Dilynodd storm Dennis, y bedwaredd storm a enwyd, ar benwythnos 15 Chwefror, gan ddod â gwyntoedd cryfion a glaw trwm cyson unwaith eto ar dir a oedd eisoes yn soeglyd. Cyhoeddwyd rhybuddion tywydd oren ar gyfer glaw gan y Swyddfa Dywydd ar 13 Chwefror, wedi'u diweddaru i Goch ar 16 Chwefror gan ddynodi y disgwyliwyd tywydd peryglus â'r potensial o berygl i fywydau. Arweiniodd glawiad eithafol, dwys at lefelau afonydd uchaf erioed ar draws llawer o afonydd y de gan gynnwys Afon Wysg ac Afon Taf. Cafodd cyrsiau dŵr llai a systemau dŵr wyneb hefyd eu heffeithio gan gyfaint y dŵr gan arwain at lifogydd eang ar draws llawer o gymunedau.

10. Cofnodwyd tirlithriad tomen lo yn Tylorstown, Rhondda Cynon Taf, gan arwain at dunelli o sborion yn effeithio ar Afon Rhondda Fach ac yn difrodi seilwaith carthffosiaeth lleol. Amlygodd y digwyddiad hwn y perygl llifogydd posibl sy'n gysylltiedig â digwyddiadau o'r fath ac arweiniodd at ffurfio'r Tasglu Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru.

11. Storm Jorge oedd y bumed a'r olaf o stormydd mis Chwefror gan ddod â rhagor o law trwm a gwyntoedd cryfion ar 28 Chwefror. Er ei bod yn llai difrifol na Ciara a Dennis, syrthiodd y glaw ar dir a oedd eisoes yn soeglyd iawn gan achosi rhagor o lifogydd lleol a tharfu ar deithio ar draws ardaloedd a oedd eisoes yn ymdrin ag effeithiau o stormydd Ciara a Dennis.

12. Adroddodd Cyfoeth Naturiol Cymru bod bron i chwarter o bob un o'u 231 o fesuryddion afon yng Nghymru wedi cofnodi eu lefelau dŵr uchaf erioed ym mis Chwefror 2020 ac fe wnaeth y Swyddfa Dywydd hefyd ei gofnodi fel y mis Chwefror gwlypaf erioed i'r DU a'r pumed gaeaf gwlypaf a gofnodwyd ers dechrau cofnodi ym 1862.

## Tabl 1: Dyddiadau Allweddol

| Storm | Dyddiad enwi | Dyddiad effeithio |
|---|---|---|
| Ciara | 5 Chwefror 2020 | 8-9 Chwefror 2020 |
| Dennis | 11 Chwefror 2020 | 15-17 Chwefror 2020 |
| Jorge | 7 Chwefror 2020 (Enwyd gan AEMET, Asiantaeth Feteorolegol Sbaen) | 28 Chwefror – 1 Mawrth 2020 |

## Llifogydd

13. Effeithiodd llifogydd mis Chwefror ar lawer o rannau o Gymru gan effeithio ar eiddo mewn cymunedau, llifogydd ar seilwaith trafnidiaeth fel y rhwydweithiau priffyrdd a difrod i seilwaith rheilffyrdd. Fe wnaeth amddiffynfeydd rhag llifogydd ledled Cymru leihau effaith llifogydd a chynnig amddiffyniad mewn llawer o ardaloedd, ond ni all amddiffynfeydd fyth atal y risg yn gyfan gwbl. Gall dŵr lifo dros amddiffynfeydd neu gallant gael eu difrodi, gall cyrsiau dŵr llai a systemau draenio dŵr wyneb gael eu gorlethu o gyfaint a dwysedd y glaw, gan arwain yn aml at lifogydd a'r effeithiau a welwyd ledled Cymru.

14. Gall effeithiau llifogydd ar gartrefi a busnesau fod yn ofnadwy ac fe'u dioddefir ymhell ar ôl i'r dŵr gilio. Nid yn unig y mae llifogydd yn effeithio ar fywydau, cartrefi a busnesau yn uniongyrchol, gall hefyd gael effaith anuniongyrchol ar iechyd a llesiant y rhai sy'n cael eu heffeithio.

## Effeithiau llifogydd – cartrefi, busnesau a seilwaith

15. Roedd llifogydd mis Chwefror 2020 mor ddifrifol mai'r effeithiau ar gymunedau ac eiddo ledled Cymru oedd y llifogydd gwaethaf a gofnodwyd ers diwedd y 1970au ac adroddwyd bod cyfanswm o 3,130 wedi cael eu heffeithio.

16. Adroddwyd y mwyafrif o eiddo y cofnodwyd iddynt gael eu heffeithio mewn ardaloedd mwy poblog, ond mae'r dosbarthiad yn cyd-fynd yn agos â symudiad pob storm a'r dalgylchoedd afon a ddioddefodd rhai o'r dwyseddau glawiad mwyaf sylweddol.

17. O'r 3,130 o eiddo yr adroddwyd eu bod wedi dioddef llifogydd, mae data a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol yn dynodi bod 224 wedi digwydd yn ystod Storm Ciara, 2,765 wedi digwydd yn ystod Storm Dennis a 141 wedi digwydd yn ystod Storm Jorge.

18. Yn ystod Storm Ciara, syrthiodd bron i dri chwarter y glawiad misol cyfartalog mewn llai na 24 awr yn nalgylchoedd Conwy uchaf, Clwyd ac Elwy gan arwain at lifogydd mewn eiddo ledled y gogledd, a chymuned Llanfair Talhaearn oedd un o'r rhai a effeithiwyd waethaf. Cyrhaeddodd lefelau'r afon yn Llanelwy frig a oedd yn uwch na'r rhai a gofnodwyd ym mis Tachwedd 2012 pan ddioddefodd 300 o gartrefi lifogydd, ond fe wnaeth amddiffynfeydd rhag llifogydd a adeiladwyd ers hynny leihau'r effaith ar yr achlysur hwn.

19. Cafwyd yr effaith fwyaf ar eiddo yn dilyn Storm Dennis pan adroddwyd bod 2,765 wedi dioddef llifogydd â'r crynodiad mwyaf o'r rhain wedi'i leoli yn y de. Cofnodwyd y glawiad mwyaf dwys dros flaenddyfroedd cymoedd y de a Bannau Brycheiniog lle cofnodwyd 72% o'r glawiad misol o fewn cyfnod o 24 awr.

20. Effeithiwyd ar gymunedau ledled cymoedd y de gan ddŵr llifogydd wrth i Awdurdodau Lleol adrodd effeithiau i seilwaith trafnidiaeth, busnesau, canol trefi, parciau busnes a chyfleusterau hamdden. Ymatebodd cyrsiau dŵr yn gyflym i'r glawiad dwysedd uchel, gan gludo llawer iawn o weddillion yn cyfrannu at y difrod a'r llifogydd sylweddol ar draws llawer o ardaloedd gan gynnwys Pontypridd, Treherbert, Nantgarw, Ffynnon Taf, Pentre, Aberhonddu, Crucywel a Llan-ffwyst ymhlith eraill.

21. Mewn sawl lle, cafodd seilwaith carthffosydd ei orlenwi gan ddŵr wyneb a dŵr afon yn llifo i'r systemau carthffosydd gan arwain at y gorlifo o dyllau caead a gylis ar y briffordd, y tir ac i mewn i gartrefi ac eiddo arall. Cofnodwyd difrod a achoswyd gan rym y dŵr ar hyd y rhwydweithiau priffyrdd a rheilffyrdd, wrth i ardaloedd sylweddol o erydu a gwaddodi ledled Cymru achosi rhwystrau a bygwth eiddo a seilwaith.

22. Daeth y glawiad mwyaf erioed o Storm Dennis ag ansefydlogrwydd i rai o ardaloedd cloddio etifeddol y de gan achosi rhai mân dirlithriadau ar domenni glo segur. Arweiniodd tirlithriad sylweddol yn Tylorstown, Rhondda Cynon Taf, at symudiad 60,000 tunnell o ddeunydd gan achosi difrod i seilwaith carthffosydd, claddu prif bibell ddŵr strategol a rhwystro afon Rhondda Fach.

23. Amcangyfrifir y bydd gwaith adfer ac atgyweirio yn costio tua £20 miliwn. Arweiniodd mater ehangach diogelwch safleoedd cloddio diwydiannol Cymru at waith ymchwiliad tir gan yr Awdurdod Glo ar unwaith ar draws safleoedd cloddio etifeddol, a sefydlu'r Tasglu Diogelwch Tomenni Glo.

24. Mae'r Tasglu, o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, yn dod â'r Awdurdod Glo, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol, gan gynnwys Cymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru, ynghyd i weithio ar y cyd i adolygu diogelwch tomenni glo ledled Cymru. Mae archwilio, gwneud gwaith cynnal a chadw a'r defnydd o dechnoleg yn rhan o waith ymchwiliad tir yn parhau i ddeall yn well maint yr her, y risgiau posibl, gwaith yn y dyfodol a datblygiad deddfwriaeth sy'n rheoli diogelwch tomenni glo.

# Nod ac Amcanion y Strategaeth Lifogydd Genedlaethol

25. Mae’r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cyflwyno sut mae’n bwriadu rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae’n cyflwyno 5 amcan â’r bwriad cyffredin o leihau’r perygl i fywyd trwy flaenoriaethau strategol sy’n gweithio gyda’i gilydd neu ochr yn ochr â’i gilydd yn cwmpasu’r amgylchedd perygl llifogydd yng Nghymru.

26. Bydd y mesurau a ddisgrifir yn y Strategaeth Genedlaethol yn helpu i gyflawni’r amcanion a lleihau’r perygl presennol ac yn y dyfodol i bobl, cartrefi, busnesau o lifogydd ac erydu arfordirol.

**Ffigur 1: Nod ac Amcanion y Strategaeth Genedlaethol**

**Lleihau’r risg i bobl a chymunedau yn sgil llifogydd ac erydu arfordirol**

**Gwella ein dealltwriaeth o risg a’r ffordd rydym yn hysbysu am risg**

**Paratoi ac adeiladu cydnerthedd**

**Blaenoriaethu buddsoddi mewn cymunedau sy’n wynebu’r perygl mwyaf**

**Atal rhagor o bobl rhag dod yn agored i risg**

**Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau**

# Trosolwg o Reoli Perygl Llifogydd yng Nghymru

27. Mae llifogydd yn cael effeithiau ofnadwy ar y rhai sy'n cael eu heffeithio, o ran colled faterol a difrod i adeiladau, busnesau, ac eiddo ond hefyd eu hiechyd corfforol a'u llesiant. Rwy'n ymwybodol iawn y gall y broses difrod a thrwsio gymryd misoedd a blynyddoedd ond hefyd y gall y creithiau anweledig a ddioddefir gan y rhai sy'n cael eu heffeithio bara amser maith ar ôl i'r dyfroedd gilio ac i waith atgyweirio gael ei wneud.

28. Mae gan Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghymru swyddogaeth i nodi a rheoli'r risg o amrywiaeth o ffynonellau llifogydd. Cydnabyddir yn eang nad yw'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau yn gwbl syml, daw llawer o'r pwerau sydd ar gael i gynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol i gyflawni'r swyddogaeth hon o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr (1991) a'r Ddeddf Draenio Tir (1991). Mae gan Awdurdodau Rheoli Risg ddyletswydd i gydweithredu â'i gilydd a rhannu data wrth gyflawni eu swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol.

29. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), mae hefyd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio i wella'r llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd mewn cymunedau yng Nghymru. Mae'r newidiadau sy'n digwydd yn fyd-eang o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar waith yr Awdurdodau Rheoli Risg ledled Cymru yn uniongyrchol. Mae'n gynyddol bwysig felly bod gwaith yn cael ei wneud ar lefel dalgylch i gyflwyno prosiectau cynaliadwy mwy hirdymor. Bydd cydweithredu ar raddfa gymunedol yn cefnogi atebion mwy arloesol ac felly'n cefnogi anghenion addasu ac yn lleihau problemau yn y dyfodol sy'n codi yn sgil ein hinsawdd sy'n newid.

30. Mae rheoli llifogydd yng Nghymru yn cynnwys sawl sefydliad, pob un â swyddogaethau a chyfrifoldebau penodol.

**Ffigur 2: Trosolwg o Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

**Llywodraeth Cymru:** Gosod cyfeiriad ac amcanion, a blaenoriaethu cyllid

**Goruchwyliaeth CNC:** Goruchwyliaeth a chyfathrebu cyffredinol ynghylch rheoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru

**Awdurdodau Rheoli Risg:** Nodi a rheoli risgiau

| | |
|---|---|
| **CNC**<br>Rheoli llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr, diogelu'r arfordir. Gwaith diogelu'r arfordir fel Awdurdod Rheoli Risg erydu arfordirol. | Awdurdod Lleol, fel **Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol** Rheoli llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin, dŵr wyneb a dŵr daear. Gwaith diogelu'r arfordir fel Awdurdod Rheoli Risg erydu arfordirol. Draenio priffyrdd fel awdurdod priffyrdd. |
| **Llywodraeth Cymru**<br>Rheoli draenio priffyrdd fel awdurdod cefnffyrdd | **Cwmnïau Dŵr**<br>Rheoli llifogydd o sytemau dŵr a charthffosiaeth |

**Tirfeddianwyr, Partneriaid a Rhanddeiliaid**
Dim dyletswyddau, ond mae ganddynt rôl i'w chwarae fel tirfeddianwyr glannau'r afon neu berchenogion asedau. Hefyd, gallent ddeall orau sut i reoli tir a dŵr yn lleol a/neu'r perygl o lifogydd sy'n wynebu eu cymuned.

31. Nid oes unrhyw ddyletswyddau statudol ar Awdurdodau Rheoli Risg i wneud gwaith i reoli risg, ond ceir llawer o bwerau caniataol sy'n deillio o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr (1991) a'r Ddeddf Draenio Tir (1991) i wneud gwaith o'r fath i reoli peryglon o ffynonellau penodol. Nid oes unrhyw ddyletswydd chwaith i ddigolledu'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan lifogydd. Fodd bynnag, mae deall yr hyn a ddigwyddodd a dysgu gwersi o ddigwyddiadau llifogydd yn ofyniad i bob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. O dan adran 19 y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'n ofynnol i Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol gynnal ymchwiliadau i lifogydd a chyhoeddi'r canlyniadau. Mae'r ymchwiliadau llifogydd hyn yn cofnodi amgylchiadau digwyddiad llifogydd a nodi pa bartïon sydd â rôl wrth reoli'r perygl o lifogydd.

32. Mae Llywodraeth Cymru eisiau i Awdurdodau Rheoli Risg ddefnyddio adroddiadau adran 19 yn rhan o dystiolaeth leol i gefnogi achosion busnes ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol pan fo'n briodol, ochr yn ochr â modelu ac asesu manwl o berygl llifogydd yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'r camau sydd eu hangen tuag at fynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a lleihau'r perygl o lifogydd pan fo'n bosibl.

33. Mae Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn cynnwys llawer o sefydliadau gan gynnwys 28 o Awdurdodau Rheoli Risg, Perchnogion Tir, Partneriaid a Rhanddeiliaid. Mae gan bob un ohonynt ran i'w chwarae yn y gwaith o reoli perygl llifogydd a chyflawni amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru.

34. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb cyffredinol am bolisi llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae'n cyflwyno'r weledigaeth a'r polisïau hirdymor ar gyfer rheoli llifogydd yn ogystal â'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd gan sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau: leol, a chwmnïau dŵr i leihau'r peryglon i bobl a chymunedau o lifogydd erydu arfordirol, ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd dros y ganrif nesaf.

35. Darperir cyllid ar gyfer gwaith rheoli perygl llifogydd yng Nghymru drwy'r Rhaglenni Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Dyrennir cyllid i Awdurdodau Rheoli Risg i gynorthwyo'r ddarpariaeth o weithgareddau perygl llifogydd ac mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi cynlluniau Awdurdod Lleol a rhaglenni o fuddsoddiad sy'n cyflawni yn erbyn amcanion polisi.

36. Nod y Strategaeth Genedlaethol yw lleihau'r perygl i bobl a chymunedau o lifogydd ac erydu arfordirol. Cydnabyddir bod risg, amlder a chanlyniadau cynyddol yn effeithio ar gymunedau ledled Cymru. Bydd yr effeithiau a'r materion hyn yn effeithio ar bob rhan o gymdeithas mewn rhyw ffordd ac nid yw'n rhywbeth y gellir mynd i'r afael ag ef trwy ddulliau traddodiadol yn unig, ond yn hytrach mae angen dull cydgysylltiedig cyfunol sy'n cynnwys cymunedau. Mae angen annog cymunedau i addasu i'r perygl hwn a datblygu gydnerthedd o gynorthwyo cenedlaethau'r dyfodol i fod yn barod ar gyfer digwyddiadau llifogydd.

37. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru dair swyddogaeth ddiffiniedig ym maes rheoli perygl llifogydd:

- Swyddogaeth trosolwg strategol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru oruchwyliaeth a chyfathrebiad cyffredinol o faterion rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys meddu ar ddealltwriaeth Cymru gyfan o bob ffynhonnell o lifogydd, erydu arfordirol a pheryglon cysylltiedig, gan gynghori a chynorthwyo Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Rheoli Risg a'r cyhoedd.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni gweithgareddau ar ran neu ar y cyd ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill.
- Gweithgareddau y maent yn eu cyflawni i reoli llifogydd o brif afonydd[1] a'r môr a rheoli erydu arfordirol.

38. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi gwybodaeth lefel genedlaethol ar berygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys darparu gwasanaeth rhybudd llifogydd, mapio risg sydd ar gael yn genedlaethol a chyngor i'r cyhoedd ar yr hyn y gallant ei wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.

---

1 Y nentydd neu'r afonydd mwy yw'r cyrsiau dŵr a ddynodir yn 'brif afon' yn gyffredinol, ond mae rhai yn gyrsiau dŵr llai o arwyddocâd. Mae'r holl gyrsiau dŵr agored eraill wedi'u dynodi fel 'cwrs dŵr cyffredin'. Ar y cyrsiau dŵr hyn, mae gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol neu os yw mewn Ardal Ddraenio Fewnol, y Bwrdd Draenio Mewnol, bwerau caniataol tebyg i Cyfoeth Naturiol Cymru.

39. Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yw 22 o'r 28 o Awdurdodau Rheoli Risg ledled Cymru. Maent yn cymryd y cyfrifoldeb am reoli perygl llifogydd o gyrsiau dŵr llai a adnabyddir fel cyrsiau dŵr cyffredin (ddim yn brif afon), dŵr wyneb a dŵr daear. Pan fo gan awdurdod forlin, mae hefyd yn cymryd y cyfrifoldeb arweiniol ar waith diogelu'r arfordir fel awdurdod rheoli'r perygl o erydu arfordirol.

40. Awdurdodau Lleol yw'r awdurdod priffyrdd lleol hefyd ac felly maent yn cymryd y cyfrifoldeb am ddraenio priffyrdd. Pan fo'r briffordd wedi'i dosbarthu fel cefnffordd, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd y cyfrifoldeb am ddraenio ar y ffyrdd hyn. Asiantaethau Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a De Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r rhwydwaith cefnffyrdd ar ran Llywodraeth Cymru.

41. Cwmnïau a gweithredwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gyfrifol am ddraenio trwy rwydweithiau carthffosydd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau dŵr budr, dŵr wyneb a chyfunol. Mae angen cydweithio a chydweithredu agos gydag Awdurdodau Lleol yn eu swyddogaeth fel awdurdodau priffyrdd a chynllunio.

# Y Broses Rheoli Risg yng Nghymru

42. Mae gan Gymru amrywiaeth o asedau perygl llifogydd ledled Cymru, i gyd o dan wahanol berchnogaeth. Tra bod llawer o'r amddiffynfeydd sy'n diogelu'r cymunedau sydd yn y perygl mwyaf yng Nghymru yn cael eu rheoli a'u cynnal gan Awdurdodau Rheoli Risg, ceir nifer fawr o strwythurau perygl llifogydd sy'n eiddo preifat nad ydynt yn cael eu rheoli na'u harolygu yn yr un ffordd â'r rhai a reolir gan Awdurdodau Rheoli Risg. Pan fydd arolygiadau yn cael eu cynnal ac y nodir bod angen gwaith ar sail perygl llifogydd, gall Awdurdodau Rheoli Risg hysbysu'r perchennog cofrestredig a gwneud cais i hyn ddigwydd. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig ar hyd arfordir Cymru lle mae rhannau hirfaith o'r rhwydwaith rheilffyrdd yn ffinio'r arfordir ac yn gallu gweithredu fel rhwystr rhwng yr arfordir a chymunedau. Er nad yw Network Rail wedi'i nodi fel Awdurdod Rheoli Risg nac yn meddu ar unrhyw swyddogaeth swyddogol arall o ran perygl llifogydd, maent yn bartner pwysig o ran rheoli perygl llifogydd ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ledled Cymru.

# Cyllid a Buddsoddiad Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

43. Mae llifogydd yng Nghymru yn swyddogaeth ddatganoledig a chaiff penderfyniadau a wneir am gyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Gall Gweinidogion ddewis darparu cyllid i gefnogi gweithgareddau a ariennir gan grantiau refeniw a chyfalaf i Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol trwy broses ceisio am grant i gynorthwyo Awdurdodau Rheoli Risg i gyflawni eu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol.

44. Mae'r cyllid ar gael i gynorthwyo mewn meysydd fel rheoli a buddsoddi mewn asedau perygl llifogydd ledled Cymru, gwella ein dealltwriaeth o berygl trwy well mapio a modelu digidol, gwella gallu rhybudd llifogydd a chosi ymwybyddiaeth mewn cymunedau o'r peryglon a'r hyn y gall cymunedau ei wneud i leihau'r effaith pe bai'r gwaethaf yn digwydd. Cyflwynir y meini prawf cymhwyso llawn a chyfraddau'r grantiau yn y Memorandwm Grantiau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (**Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol: memorandwm grantiau | LLYW.CYMRU**).

45. Mae'r rhaglen fuddsoddi Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn gweithio gydag Awdurdodau Rheoli Risg i ddatblygu ceisiadau achos busnes ar gyfer ymyriadau sy'n lleihau perygl llifogydd o unrhyw ffynhonnell (ac eithrio llifogydd sy'n gysylltiedig â charthffosydd y mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd statudol i ymdrin â nhw) a/neu erydiad arfordirol i gartrefi.

46. Caiff buddsoddiad ei flaenoriaethu ar gyfer y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf gan gefnogi cynlluniau dalgylch graddfa fawr gan gynnwys Rheoli Llifogydd yn Naturiol a rhaglenni lefel gymunedol a allai fod ar raddfa lai ond sydd yr un mor bwysig i leihau perygl lleol fel gosod llifddorau neu ddarparu mesurau cydnerthedd ar lefel eiddo.

47. Mae Awdurdodau Lleol yn datblygu achosion busnes i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru eu hystyried gan ddefnyddio'r Canllawiau Achos Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Caiff ceisiadau eu hadolygu a'u harfarnu ar sail eu rhinweddau yn erbyn meini prawf wedi'u diffinio ymlaen llaw a amlinellir yn y canllawiau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli ac yn adolygu eu rhaglen eu hunain o Achosion Busnes gan ddefnyddio'r un broses ganllawiau.

48. Mae datblygiad achosion busnes yn amrywio yn dibynnu ar raddfa, cymhlethdod ac adnoddau ariannol a staff mewn Awdurdodau Rheoli Risg i fwrw ymlaen â nhw. I gefnogi'r broses hon, mae Llywodraeth Cymru yn darparu 100% o'r cyllid tuag at y broses datblygu achos busnes ac 85% tuag at brosiectau sy'n llwyddo i gyrraedd y cam adeiladu.

49. Gall cynlluniau lliniaru rhag llifogydd llai gael eu hybu gan Awdurdodau Lleol yn flynyddol trwy gynllun Grant Gwaith ar Raddfa Fach Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn caniatáu i Awdurdodau Lleol wneud cais am grant o hyd at £200,000 fesul cynllun ar gyfer darparu mesurau a all ddangos gostyngiad i berygl llifogydd i eiddo. Caiff pob cais ei adolygu yn erbyn meini prawf wedi'u diffinio ymlaen llawn gan ddefnyddio canllawiau cyhoeddedig.

# Ymateb Brys – Ymatebwyr Categori 1 a 2

50. O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae gan ymatebwyr Categori 1 gyfrifoldeb craidd i ymateb yn ystod argyfwng fel llifogydd. Ceir 6 o ddyletswyddau diffiniedig gan gynnwys; yr angen i asesu'r amrywiaeth o beryglon posibl; cynllunio ar gyfer sefyllfaoedd brys gan gynnwys hyfforddi ac ymarfer, gan gynnwys datblygu cynlluniau parhad busnes sy'n sicrhau bod trefniadau ar waith i gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau. Mae'n rhaid i ymatebwyr ddatblygu mesurau i rybudd a hysbysu cyn ac yn ystod digwyddiadau brys a chydweithio i rannu gwybodaeth a darparu ymateb cydgysylltiedig. Dyma'r ymatebwyr Categori 1 yng Nghymru:

- Awdurdodau Lleol
- Heddluoedd, gan gynnwys yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau EF
- Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd

51. Ni ystyrir bod ymatebwyr Categori 2 yn ymatebwyr 'cynradd' ond mae ganddynt y potensial i chwarae rhan bwysig mewn argyfyngau sy'n ymwneud â'u maes arbenigol. Fel ymatebwr Categori 2, mae ganddynt ddyletswydd i gydweithredu a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid ymateb eraill o ran cynllunio ac ymateb i ddigwyddiadau mawr. Dyma'r ymatebwyr Categori 2:

- Cyfleustodau – Cwmnïau dŵr, dosbarthwyr nwy a thrydan a chwmnïau telathrebu
- Trafnidiaeth – Gweithredwyr meysydd awyr a rheilffordd, Network Rail a'r Asiantaeth Priffyrdd
- Awdurdodau harbwr
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Y Swyddfa Dywydd

52. Mae ymatebwyr Categori 1 a 2 yn dod at ei gilydd ac yn ffurfio Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a ddiffinnir gan ffiniau Heddluoedd yng Nghymru. Ceir pedwar grŵp partneriaeth amlasiantaeth sy'n dod â'r amrywiaeth eang o brofiad ynghyd, gan gynnwys profiad y lluoedd arfog a'r sector gwirfoddol, i gynllunio a pharatoi ar gyfer argyfyngau. De Cymru, Gogledd Cymru, Dyfed-Powys a Gwent yw'r pedwar grŵp Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yng Nghymru.

53. Cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad llifogydd, bydd partneriaid Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn cydweithredu ac yn cydgysylltu gwybodaeth ac adnoddau i gynorthwyo ymateb amlasiantaeth ar lawr gwlad ac wrth adfer.

# Adolygiad o Adroddiadau Adran 19 ac Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei Ymateb i Stormydd mis Chwefror 2020

54. Mae'r croestoriadau hyn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol, eu hadolygiadau, y Pwyllgor Seilwaith Cenedlaethol, ei adolygiad (fel sy'n ofynnol o dan Gytundeb Cydweithio 2021 rhwng y blaid Lafur a Phlaid Cymru), asesiad ac archwiliad Archwilio Cymru ac ystyriaethau posibl Comisiwn y Gyfraith yn y maes hwn.

55. Roedd y cylch gorchwyl yn fy nghyfarwyddo i adeiladu ar adolygiadau blaenorol ac fe'm gwahoddwyd yn eglur i wneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian i'r trethdalwr. Roedd y cylch gorchwyl hefyd yn gorfodi gofyniad arnaf i osgoi, cyn belled ag y bo'n bosibl, ailadrodd adroddiadau eraill a gyflawnwyd, sydd ar y gweill neu sydd yn yr arfaeth a allai fod yn berthnasol i gwmpas ac amcanion yr adolygiad hwn.

# Cylch Gorchwyl

56. Roedd sefydlu a chytuno ar y cylch gorchwyl terfynol yn fater i mi fy hun, y Gweinidog Newid Hinsawdd ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru. Mae fel a ganlyn:

- Dylai'r Adolygiad ystyried yr holl ddeunydd perthnasol a ddarparwyd mewn adroddiadau adran 19 ac adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun ar y llifogydd a ddigwyddodd yng Nghymru yn ystod gaeafau 2020 a 2021, eu heffeithiau a sut y gallai hyn hysbysu blaenoriaethau ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol.
- Dylai'r Adolygiad gael ei arwain gan unigolyn annibynnol, awdurdodol â chymwysterau priodol sydd wedi'i rymuso ac yn derbyn yr adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldebau o arwain yr adolygiad mewn modd diduedd a gwrthrychol.
- Dylai'r Adolygiad ganolbwyntio'n benodol ar asesu a blaenoriaethu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau adran 19 sydd ar gael ac adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd ag unrhyw adroddiadau perthnasol eraill y mae'r cadeirydd yn eu hystyried sy'n angenrheidiol (rhai cwmnïau dŵr er enghraifft) yn cyflwyno argymhellion cysylltiedig ar gyfer gweithredu gan y corff perthnasol. Dylai ystyried canfyddiadau allweddol, pryderon cyffredin, nodi meysydd i'w gwella ac o arfer da, llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd.
- Dylai'r Adolygiad geisio sylwadau ysgrifenedig gan randdeiliaid perthnasol a chyrff cyhoeddus ac aelodau etholedig yn benodol.
- Bydd yr Adolygiad, fel sy'n briodol, yn cael ei hysbysu gan adolygiadau blaenorol yn ymwneud â llifogydd, adroddiadau perthnasol eraill, canfyddiadau Pwyllgorau'r Senedd a pholisi cenedlaethol gan gynnwys , yn benodol, Strategaeth Llifogydd Cymru, ac adeiladu ar y rhain, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.
- Bydd yr Adolygiad, cyn belled ag y bo'n bosibl, yn osgoi ailadrodd y canlynol:
    - i. Adolygiad y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn archwilio dulliau optimaidd o gael gafael ar gyllid a chydweithrediad Awdurdodau Rheoli Risg i gyflawni canlyniadau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol;
    - ii. Adolygiad y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol o ddarpariaeth swyddogaethau rheoli perygl llifogydd statudol;
    - iii. Adolygiad rhagweledig Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru o ba mor agored yw seilwaith i berygl llifogydd hirdymor;
    - iv. Asesiad 'sefyllfa'r genedl' rhagweledig Archwilio Cymru o heriau rheoli perygl llifogydd ac archwiliad dilynol o ddarpariaeth (y mae ei gwmpas yn cael ei ystyried gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar hyn o bryd);
    - v. Adolygiad rhagweledig Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth rheoli perygl llifogydd yng Nghymru a Lloegr.
- Os bydd yr Adolygydd o'r farn bod angen unrhyw ddiwygiad i'r cylch gorchwyl hwn, bydd y mater yn cael ei ddychwelyd ar gyfer ystyriaeth gan y partïon comisiynu.

# Ymchwiliadau Adran 19

57. Yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol, mae Awdurdodau Lleol yn cyflwyno llinellau cymorth ffôn i gofnodi'r holl ddigwyddiadau a adroddir iddynt gan y cyhoedd, eu swyddogion eu hunain neu bartneriaid sector cyhoeddus. Ymchwilio i lifogydd mewnol i eiddo gan swyddogion llifogydd Awdurdodau Lleol i ddarganfod maint a natur y broblem. Yn y cyfnod cychwynnol, gallai'r camau dilynol gynnwys galwad ffôn gan swyddogion llifogydd yr Awdurdod Lleol i'r deiliad tŷ/deiliaid tai sydd wedi'u heffeithio neu archwiliad ffisegol o'r eiddo a'r cyffiniau. Efallai na fydd hyn yn sbarduno ymchwiliad adran 19 o reidrwydd.

58. Yn dilyn digwyddiad llifogydd, gallai Awdurdod Lleol nodi'r angen am waith adferol ar seilwaith rheoli perygl llifogydd i leihau'r perygl yn y dyfodol. Os yw'r gwaith a nodir yn rhan o'i gylch gwaith (hy mae'r ffynhonnell o ddŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin ac ati), gallai'r Awdurdod Lleol ddewis gwneud y gwaith adferol cyn gynted â phosibl. O dan yr amgylchiadau hynny, gallai cyllid ar gyfer gwaith trwsio seilwaith sydd wedi'i ddifrodi, neu waith gwella asedau presennol, gael ei wneud ar gael gan Lywodraeth Cymru.

59. Yn dilyn stormydd mis Chwefror 2020, darparodd Llywodraeth Cymru £8.9 miliwn i Awdurdodau Lleol – yn ychwanegol i ddyraniad 2020-21 i awdurdodau rheoli llifogydd ar gyfer darpariaeth lifogydd. Fe wnaeth hyn gynorthwyo'r gwaith o drwsio seilwaith ac asedau llifogydd a ddifrodwyd.

60. Mae adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (Awdurdodau Lleol yng Nghymru) gynnal ymchwiliadau yn dilyn llifogydd sylweddol ac i gyhoeddi'r canlyniadau:

## Awdurdodau Lleol: ymchwiliadau

- (1) O ddod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, mae'n rhaid i Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, i'r graddau y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol, ymchwilio —

  (a) pa Awdurdodau Rheoli Risg sydd â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd perthnasol, a

  (b) pa un a yw pob un o'r Awdurdodau Rheoli Risg hynny wedi arfer, neu'n bwriadu arfer, y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r llifogydd.

- (2) Pan fo awdurdod yn cynnal ymchwiliad o dan isadran (1) mae'n rhaid iddo —

  (a) cyhoeddi canlyniadau ei ymchwiliad, a

  (b) hysbysu unrhyw Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol.

61. Gall ymchwiliadau adran 19 fod yn ddefnyddiol i ddarganfod graddau llawn effeithiau llifogydd, i wella modelau data a gallai hysbysu trefnau cynnal a chadw neu waith lleddfu pellach, mesurau neu gefnogi ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. Nid oes unrhyw amserlen statudol ar gyfer cynnal a chwblhau ymchwiliadau adran 19, ond mae'r **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol** (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020) yn ei gwneud yn eglur mai materion i Awdurdodau Lleol ei benderfynu yw hyd a chymhlethdod adroddiadau adran 19 ac y dylent fod yn gymesur i faint y llifogydd, cymryd y ddealltwriaeth o'r problemau i ystyriaeth (os oes dealltwriaeth dda o achos y llifogydd eisoes, er enghraifft), neu'r math o fesur adfer sydd ei angen.

62. Mae'r gofyniad adran 19 yn berthnasol i Awdurdodau Lleol yn unig yng Nghymru (hy. nid yw'r ddarpariaeth yn berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru na Dŵr Cymru Welsh Water). Er nad oes unrhyw drothwy statudol ar gyfer sbarduno ymchwiliad adran 19, mae'r Strategaeth Genedlaethol yn gwneud yn eglur disgwyliad Llywodraeth Cymru y dylai ymchwiliadau adran 19 gael eu cynnal pan fo 20 neu fwy o gartrefi mewn un ardal yn cael eu heffeithio gan lifogydd mewnol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol hefyd yn ei gwneud yn eglur y dylai Awdurdodau Lleol hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru pan fydd yr adroddiad ymchwilio yn cael ei gyhoeddi.

63. Er mai trothwy ar gyfer sefydlu ymchwiliad adran 19 fel y nodir yn y Strategaeth Genedlaethol yw pan fo 20 eiddo neu fwy yn dioddef llifogydd, mae 8 Awdurdod Lleol wedi pennu trothwy is ar gyfer ymchwilio i achosion o lifogydd o dan y Ddeddf.

64. Gall adroddiadau adran 19 amrywio o ran maint a chymhlethdod. Mae'r Sefydliad Safonau Prydeinig wedi cyhoeddi safon BS 85600:2017 (Asesiadau llifogydd ôl-ddigwyddiad — Canllawiau ar ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd) i gynorthwyo Awdurdodau Rheol Perygl Llifogydd. Mae safon y Sefydliad Safonau Prydeinig yn cyflwyno dull ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd, ond penderfyniad i'r Awdurdod Lleol yw'r lefel o fanylder yn y pen draw.

65. Wrth gynnal adroddiad ymchwilio, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol hysbysu Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol sy'n cyflawni swyddogaethau rheoli perygl llifogydd o ran y digwyddiad llifogydd sy'n cael ei ymchwilio. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn ei gwneud yn eglur bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Rheoli Risg eraill (Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr ac Awdurdodau Lleol cyfagos), gydweithredu'n llawn.

66. Nid yw Awdurdodau Lleol o reidrwydd yn llunio adroddiadau ar gyfer pob digwyddiad llifogydd ac nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol i wneud hynny y tu hwnt i'r gofyniad adran 19 (hy. pan fo'r awdurdod yn ystyried ei fod yn "angenrheidiol neu'n briodol"). Tra'n cydnabod hyn, mae'r Strategaeth Genedlaethol yn cyflwyno disgwyliad i Awdurdodau Lleol gyflawni adroddiadau adran 19 pan fo '20 neu fwy o eiddo mewn un ardal yn dioddef llifogydd mewnol'. Gall Awdurdodau Lleol fabwysiadu trothwy is ar gyfer sbarduno ymchwiliad adran 19 i'r un a amlinellir ac mae hyn yn amrywio ar draws awdurdodau yng Nghymru. Mae'r trothwyon presennol ar gael yn nhabl 4, (Atodiad A).

67. Caiff y penderfyniad i lansio ymchwiliad ffurfiol ei hysbysu yn nodweddiadol gan faint digwyddiad, capasiti a gallu o fewn y timau perthnasol sy'n arwain gweithgareddau rheoli llifogydd ym mhob awdurdod. Bydd llawer o'r staff hynny hefyd yn bodloni gofynion eraill gan gynnwys ymateb brys i lifogydd, archwilio asedau llifogydd, datblygu cynlluniau newydd a darparu swyddogaethau statudol fel y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy. Mewn rhai achosion, bydd cymorth allanol yn cael ei geisio i gynorthwyo gyda'r ymchwiliadau hyn.

68. Nid oes dim i atal Awdurdodau Lleol rhag gweithredu i roi sylw i anghenion a pheryglon cymunedol o ran atal llifogydd pan un a yw ymchwiliad adran 19 yn cael ei gynnal ai peidio. Bydd rhai Awdurdodau Lleol yn cofnodi achosion yr ystyrir 'y bu ond y dim iddynt ddigwydd', gan ddarparu cofnod hanesyddol o lifogydd yn eu hardal. Nid yw mynediad at gyllid Llywodraeth Cymru (gan gynnwys ar gyfer cynlluniau newydd) wedi'i seilio ar ganfyddiadau adroddiad adran 19 ffurfiol, er y gall y dystiolaeth hon fod o gymorth i hysbysu angen yn y dyfodol.

69. Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru yn cynnwys mesur penodol (21) i wella gweithrediad darpariaethau adran 19: **rydym am i adroddiadau ymchwilio adran 19 fod yn symlach i Awdurdodau Lleol eu cynnal ac yn haws i'r cyhoedd eu deall**. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, CLlLC a Phwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol annibynnol Cymru i roi sylw i'r Mesur hwn.

## Y sefyllfa bresennol: ymchwiliadau adran 19

70. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Rheoli Risg Cymru i fonitro darpariaeth, i olrhain materion sy'n codi, ac i ddarparu'r cymorth, y canllawiau a'r cyllid angenrheidiol. O ddiwedd mis Ebrill 2023, mae'r 22 o Awdurdodau Lleol wedi hysbysu Llywodraeth Cymru bod angen 154 o ymchwiliadau adran 19 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Chwefror 2020 a mis Hydref 2021. Mae'r ymchwiliadau hyn yn cwmpasu digwyddiadau llifogydd lluosog ac nid ydynt wedi'u cyfyngu'n benodol i stormydd Chwefror 2020 (Stormydd Ciara, Dennis a Jorge).

71. Yn rhan o'r adolygiad hwn, mae gwaith wedi cael ei wneud i ddarganfod statws adroddiadau adran 19 perthnasol ac a ydynt ar gael. Anogwyd Awdurdodau Lleol i gwblhau ymchwiliadau a chyhoeddi canfyddiadau cysylltiedig cyn gynted â phosibl. Gall statws adroddiad fod 'ar y gweill', 'i'w gymeradwyo', 'wedi'i gwblhau ond ni fydd yn cael ei gyhoeddi' neu 'cyhoeddwyd'. Dylid nodi bod rhai o'r Awdurdodau Lleol a darwyd waethaf yn dilyn stormydd mis Chwefror 2020 wedi blaenoriaethu gwaith trwsio ac adfer gweithredol dros fwrw ymlaen ag ymchwiliadau ffurfiol.

72. Dynododd asesiadau cynnar a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol y byddai angen tua 150 o ymchwiliadau adran 19 o ran stormydd mis Chwefror 2020 yn unig. Fodd bynnag, mae'r nifer hon wedi gostwng ers hynny; mae nifer o awdurdodau wedi cydgrynhoi niferoedd mawr o ymchwiliadau a nodwyd i gychwyn, mae rhai wedi gwneud y penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliadau ffurfiol (ar ôl cyflawni mesurau adfer ers hynny), tra bod eraill wedi cynyddu'r trothwy sy'n ofynnol i sbarduno ymchwiliad ffurfiol. Efallai fod y penderfyniad i gynyddu'r trothwy i sbarduno ymchwiliad ffurfiol wedi bod yn un pragmatig: nododd un Awdurdod Lleol i gychwyn y byddai angen 50 o adroddiadau ar wahân yn ymwneud â stormydd mis Chwefror 2020 yn unig.

73. Yn ogystal ag effaith gofynion rheoli perygl llifogydd, rhwystrwyd llawer o ymchwiliadau adran 19 gan gyfyngiadau COVID-19 a'r gofynion cysylltiedig ar lywodraeth leol. Fe wnaeth gweithio mewn lleoliadau caeedig (i archwilio asedau draenio a llifogydd) a chyfyngiadau ar gasglu gwybodaeth ac ymgysylltu â thrigolion effeithio ar y cynnydd gydag ymchwiliadau yn 2020 a 2021.

74. Mae Tabl 4 (Atodiad A) yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran yr ymchwiliadau hyn a'r adroddiadau cysylltiedig:

- 84 wedi'u cyhoeddi
- 43 wedi'u cwblhau (ond nid yw'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cyhoeddi)
- 8 yn disgwyl cymeradwyaeth
- 34 yr ymchwiliad yn parhau neu ar ffurf drafft
- 2 ymchwiliad heb gychwyn eto.

Mae pum Awdurdod Lleol wedi cadarnhau na fyddant yn cynnal unrhyw ymchwiliadau adran 19.

75. Darperir manylion yr ymchwiliadau adran 19 fesul digwyddiad llifogydd yn Nhabl 4 (Atodiad A). Mae mwyafrif yr ymchwiliadau (89) wedi codi yng nghyswllt stormydd mis Chwefror 2020. Sbardunodd Storm Christoph (Ionawr 2021) 36 o ymchwiliadau.

# Dysgu o Ddigwyddiadau Llifogydd a Lleihau Perygl Llifogydd

## Diweddariad Awdurdodau Lleol gan gynnwys ymchwiliadau adran 19

76. I ategu'r adolygiad, gwahoddwyd holl swyddogion rheoli perygl llifogydd arweiniol Awdurdodau Lleol i rannu eu profiad o waith ymchwilio i lifogydd ac adrodd ar ymchwiliadau llifogydd adran 19, lle gwnaed hyn. Yn rhan o'r cais hwn, gofynnwyd iddynt ymateb i dri chwestiwn penodol:

    i. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r prif bwyntiau dysgu yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

    ii. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

    iii. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

77. O'r 22 o Awdurdodau Rheoli Risg Awdurdodau Lleol y cysylltwyd â nhw, derbyniwyd 14 o ymatebion o bob rhan o Gymru. Roedd y rhain yn amrywio o awdurdodau â gwybodaeth am y broses a phrofiad ohoni ar ôl cwblhau sawl adroddiad fel Conwy a Rhondda Cynon Taf sydd wedi cwblhau 34 a 19, yn eu trefn; i'r rhai â llai o brofiad fel Blaenau Gwent a gwblhaodd eu hadroddiad adran 19 cyntaf yn dilyn stormydd mis Chwefror 2020.

78. Mae'r ymatebion yn dynodi buddion i'r Awdurdod Rheoli Risg yn ogystal â'r gymuned ehangach o lunio'r adroddiadau hyn. Fe'u defnyddir fel dogfen gofnod allweddol o'r digwyddiad llifogydd, gan nodi ffynonellau o lifogydd, yr Awdurdodau Rheoli Risg dan sylw a hefyd cyflwyno pa gamau uniongyrchol a allai fod yn ofynnol yn y byrdymor, y tymor canolig neu'r hirdymor i leihau'r perygl yn y dyfodol.

79. Fel cofnod cynhwysfawr o ddigwyddiad, cydnabyddir bod y gwaith a wneir i lunio'r adroddiadau hyn yn helpu dealltwriaeth mewn cymunedau sy'n cael eu heffeithio ac yn cynorthwyo gyda sgyrsiau ymhlith Awdurdodau Rheoli Risg, aelodau etholedig, a'u cymunedau. Mae'r adroddiadau hyn yn ddull defnyddiol, gan helpu i gyflwyno pa gamau pellach allai ddilyn a nodi gwersi a ddysgwyd y gellir bwrw ymlaen a nhw wedyn.

80. Nodir bod rheoli disgwyliadau o ran lefel y manylder i'w gynnwys yn yr adroddiadau a'r amser y gall ei gymryd i gynnal ymchwiliadau yn her. Gall hyn amrywio o un Awdurdod Lleol i'r llall o gofio bod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymchwiliadau gael eu cynnal **'i'r graddau y mae (yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol) yn ei ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol'**. Mae hyn felly yn ei gadael i bob Awdurdod Lleol benderfynu ar gwmpas ymchwiliad ac adrodd yn dilyn achos o lifogydd.

81. Fe wnaeth graddfa enfawr y llifogydd a ddioddefwyd ar draws rhai ardaloedd Awdurdod Lleol effeithio ar yr amser a gymerodd i gwblhau ymchwiliadau a chyhoeddi adroddiadau. Disgrifiwyd llifogydd ym mis Chwefror 2020 fel 'y gwaethaf mewn cenhedlaeth' o ran nifer yr eiddo a ddioddefodd lifogydd a'r lefelau uchaf erioed yn cael eu cyrraedd ar draws ar archifau lefel afonydd.

82. Mae'r holl Awdurdodau Rheoli Risg yn amlygu'r buddion o sicrhau gwybodaeth allweddol yn y dogfennau hyn y gellir hefyd ei defnyddio i gynorthwyo datblygiad achosion busnes yn y dyfodol a cheisiadau am gyllid i Raglen Fuddsoddi Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru.

83. Mae'r holl ymatebwyr yn amlygu'r heriau a wynebir wrth ymchwilio a chasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau llifogydd. Pa un a yw hyn yn cael ei wneud yn fewnol neu trwy gymorth ymgynghoriaeth, gall fod yn broses sy'n gofyn am lawer o adnoddau, sy'n aml angen gwybodaeth leol benodol yn ychwanegol at y sgiliau sydd eu hangen i gydgrynhoi a llunio'r adroddiadau eu hunain. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am reoli asedau, priffyrdd a rhwydweithiau draenio ond hefyd mewn meysydd arbenigol fel hydroleg.

84. Effeithiodd heriau yn gysylltiedig â phandemig Covid ar y broses ymchwilio yn dilyn stormydd mis Chwefror 2020. Cafodd blaenoriaethu a rhagofalon o ganlyniad i'r pandemig effaith ar y broses ymchwilio mewn rhai achosion ac effeithiwyd ar y broses adrodd yn sgil hynny. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, parhaodd y broses o fynd i'r afael â gwaith atgyweirio brys byrdymor. Parhaodd y broses datblygu achosion busnes hefyd, ac mae Awdurdodau Rheoli Risg wedi dweud bod datblygu achos busnes llwyddiannus yn allweddol i sicrhau cyllid buddsoddi mewn perygl llifogydd gan Lywodraeth Cymru ac felly mae weithiau'n cael ei flaenoriaethu cyn cyhoeddi adroddiad adran 19.

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

**(1 adroddiad a19)**

85. Yn 2021, cyhoeddodd CBS Blaenau Gwent (CBSBG) ei Adroddiad Ymchwilio Llifogydd a19 cyntaf a archwiliodd y digwyddiad llifogydd dŵr wyneb yn Meadow Street a Railway Street, Llanhiledd, rhwng 15 a 16 Chwefror 2020, yn dilyn Storm Dennis ac un o'r gaeafau gwlypaf a gofnodwyd erioed. Effeithiodd y digwyddiad llifogydd ar dros 80 o gartrefi yn yr ardal. Canfu'r ymchwiliad bod y llifogydd wedi digwydd o ganlyniad i dair problem o fewn safle'r llifogydd, gan gynnwys twll caead wedi'i rwystro a chapasiti draenio annigonol yn y seilwaith draenio dŵr wyneb.

**Pwyntiau dysgu allweddol:**

86. Pwysigrwydd cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau llifogydd, gan gynnwys rhagolygon tywydd, data lefel afonydd, ffotograffau o safleoedd, archwiliadau cwlfertau, datganiadau tystion a chofnodion galwadau brys.

- Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i'r adroddiad hwn gan fod Covid wedi ymddangos yn fuan ar ôl y digwyddiad llifogydd, a rhoddwyd y mesurau cyfyngiadau symud dilynol ar waith. Fe wnaeth mesurau cyfyngiadau symud, yn ogystal â phroblemau adnoddau oedi'r ymchwiliad i'r llifogydd. Pan ail-gychwynnodd yr ymchwiliad dros 9 mis yn ddiweddarach, roedd yn dibynnu ar y cofnodion a gadwyd cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad. Cadwyd llawer o'r data gan adrannau eraill o fewn CBSBG neu gan sefydliadau allanol.
- Er bod yr adroddiad Ymchwiliad Llifogydd a19 yn ymdrin ag amgylchiadau ffeithiol y digwyddiad llifogydd, ni ellir anwybyddu'r effaith y mae'r digwyddiad llifogydd yn ei chael ar y gymuned leol ac mae'n bosibl y gellid cynnwys hyn yn y templed adrodd ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau llifogydd yn y dyfodol. Mae trigolion a busnesau sy'n cael eu heffeithio gan y digwyddiad llifogydd angen gollyngfa i fynegi sut yr effeithiodd y digwyddiad llifogydd arnynt.
- Pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau llifogydd.
- Pwysigrwydd ymgysylltu/cydweithredu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys DCWW a Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Pwysigrwydd gwybodaeth dda am y dalgylch a'r cyrsiau dŵr ynddo a dealltwriaeth dda ohonynt.
- Pwysigrwydd cydweithrediad trawsadrannol o fewn CBSBG a'r angen am gydgysylltu cyffredinol – roedd y digwyddiad llifogydd angen y mewnbwn gan wahanol adrannau trwy CBSBG i gyd, gan gynnwys Argyfyngau Sifil Posib, Peirianneg, Priffyrdd ac Adnoddau.

**Llwyddiant rhoi camau ôl-ddigwyddiad ar waith:**

- Un o'r camau allweddol a gymerwyd gan CBSBG yn dilyn y digwyddiad oedd uwchraddio'r rhwydwaith draenio presennol rhwng Railway Street a Meadow Street gan ddefnyddio cyllid a sicrhawyd gan LlC. Cwblhawyd y gwaith uwchraddio yn 2022 a hyd yma ni chafwyd unrhyw lifogydd dŵr wyneb pellach yn yr ardal. Y camau eraill a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad oedd parhau'r archwiliadau a'r gwaith cynnal a chadw rheolaidd o'i seilwaith draenio ac archwiliadau rheolaidd o gegau Cwlfertau Nant Cyffin a chael gwared ar weddillion yn ôl yr angen.

**Codi Proffil Materion Perygl Llifogydd ym Mlaenau Gwent:**

- Mae'r digwyddiad llifogydd yn Llanhiledd a'r adroddiad dilynol wedi helpu i godi proffil rheoli perygl llifogydd a'r angen i liniaru perygl llifogydd cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Gwelwyd hyn yn yr ardal leol, lle cyflawnwyd y gwaith uwchraddio ac ar draws Blaenau Gwent, lle nodwyd ardaloedd â nodweddion tebyg i Meadow Street a Railway Street ac yr ymchwiliwyd i'w seilwaith draenio i nodi a oes angen unrhyw welliannau. Hefyd, rydym yn cadw cofrestr o'r holl ddigwyddiadau llifogydd yn y fwrdeistref – mae hyn hefyd yn helpu i nodi ardaloedd a allai fod mewn perygl o ddigwyddiadau llifogydd ar raddfa fawr yn y dyfodol.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**(1 adroddiad a19)**

87. Dim datganiad. Ni luniwyd adroddiad a19 o ganlyniad i stormydd mis Chwefror 2020.

## Cyngor Sir Gaerfyrddin

**(1 adroddiad a19)**

88. Dim datganiad. Ni luniwyd adroddiad a19 o ganlyniad i stormydd mis Chwefror 2020.

## Cyngor Caerdydd

**(0 adroddiad a19)**

89. Nid yw Cyngor Caerdydd wedi cwblhau unrhyw ymchwiliadau llifogydd adran 19 gan na fodlonwyd eu trothwy eto.

## Cyngor Sir Ceredigion

**(0 adroddiad a19)**

90. Mae CS Ceredigion fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn (i'r graddau y maent yn ei ystyried sy'n angenrheidiol) ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd i ddarganfod:

    - pa awdurdod rheoli perygl llifogydd sy'n gyfrifol
    - pa gamau a gynigir ac sy'n codi y dylid eu cymryd i wella'r strategaeth perygl llifogydd cyn, yn ystod, ac ar ôl digwyddiad
    - ffynhonnell a maint y llifogydd

- gwybodaeth hanesyddol am eiddo sydd wedi dioddef llifogydd – tystiolaeth leol
- pwy ymatebodd i'r digwyddiad?
- ystyried dull partneriaeth gydag Awdurdodau Rheoli Risg eraill
- cyhoeddi canlyniadau'r ymchwiliad.

91. Mae'r opsiwn i Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ymchwilio wedi arwain i Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ddefnyddio gwahanol drothwyon. Bydd CS Ceredigion yn llunio ac yn cyhoeddi adroddiadau a19 os bydd mwy na 10 eiddo mewn un lleoliad wedi dioddef llifogydd mewnol.

92. Mae'r adroddiad yn helpu'r Awdurdod i ymchwilio'r gwaith rheoli perygl llifogydd a wnaed gan CS Ceredigion yn ystod y digwyddiad llifogydd.

93. Mae'r adroddiad yn cynnig crynodeb o'r camau sy'n cael eu cymryd gan bob un o'r Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd dan sylw, ynghyd â dynodiad i gamau a awgrymir ar gyfer y dyfodol.

94. Gall adroddiadau a19 gryfhau achosion busnes ar gyfer cyllid, a gyflwynir gan Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol fel tystiolaeth leol ochr yn ochr â modelu manwl.

95. Mae cwblhau'r adroddiad yn codi ffactorau fel yr adnoddau sydd ar gael, materion gweithredu, a dehongliad o berygl llifogydd ac mae'n sicrhau bod y perygl o lifogydd yn y dyfodol yn cael ei liniaru cyn belled â phosibl.

96. Mae'r adroddiad yn helpu i nodi heriau presennol a wynebir gan swyddogion arweiniol sy'n cyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.

97. Mae'r dull hwn yn galluogi gwell dealltwriaeth o ymatebion i arolygon tra hefyd yn cynnig cyfleoedd i rannu arferion da a meddwl am ffyrdd o wella.

98. Mae'r adroddiadau yn amlygu diffyg capasiti i reoli'r perygl llifogydd a thasgau technegol sef y prif ffactorau sy'n effeithio ar allu swyddogion i gyflawni eu dyletswyddau perygl llifogydd. Mae'n ymddangos bod datgysylltiad rhwng swyddogion arweiniol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae hynny yn effeithio ymhellach ar welliant gwasanaethau a chymorth.

99. Mae'r adroddiadau a19 yn dal i amlygu diffyg ymwybyddiaeth ac anwybodaeth o ran rheoli perygl llifogydd y cyhoedd a pherchnogion glannau afonydd:

- mai perchennog yr eiddo sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddiogelu'r eiddo rhag llifogydd
- bod yn rhaid cynnal unrhyw gwlfert, neu wely a glannau unrhyw gwrs dŵr cyfagos
- clirio unrhyw weddillion o'r cwrs dŵr neu'r cwlfert, hyd yn oed os na wnaeth darddu o'u tir.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**(34 adroddiad a19)**

100. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r prif bwyntiau dysgu yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

- Datblygwyd templed trwyadl yn wreiddiol i safoni'r broses o lunio adroddiadau. Roedd hyn yn rhy drylwyr mewn llawer o achosion, yn enwedig â'r trothwy isel ar gyfer llunio adroddiadau, a golygodd hefyd bod amser yn cael ei dreulio yn llenwi gwybodaeth a allai fod yn amherthnasol neu'n ddiangen ar gyfer y ddealltwriaeth o'r materion. Lluniwyd templedi wedi'u symleiddio sy'n fwy effeithlon ers hynny, er bod angen eu defnyddio wedyn ar gyfer adroddiadau islaw'r trothwy ar gyfer cyhoeddi.
- Mae'r trothwy isel ar gyfer llunio adroddiadau yn golygu y gallai fod mwy o siawns o ddatrys rhyw broblem fach leol o dan amgylchiadau arferol, ond ar ôl digwyddiadau llifogydd sylweddol, mae gan bob adroddiad cyhoeddadwy yr un terfyn amser sy'n gwneud blaenoriaethu'r problemau mwyaf sylweddol yn anoddach ac efallai'n golygu nad yw adnoddau'n cael eu targedu yn y modd mwyaf effeithlon.
- Hefyd, cododd yr angen i gyhoeddi pob adroddiad cymwys y mater o ba wybodaeth bersonol y gellir ei chynnwys a gall yr angen i osgoi defnyddio cyfeiriadau penodol gymryd mwy o amser neu golli rhywfaint o gywirdeb wrth adrodd ac o bosibl wrth ddatblygu camau os defnyddir yr adroddiad yn hytrach na gwybodaeth gefndir fwy manwl (yn enwedig os yw'n cael ei wneud gan ymgynghorwyr efallai nad oes ganddynt fynediad rhwydd at y data hyn).

101. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

- Mae camau o fewn pwerau'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol wedi datblygu'n dda yn gyffredinol, er mae'n debyg nad yw hyn wedi bod yn sylweddol wahanol i'r cynnydd a wnaed cyn bod adroddiadau a19 yn ofynnol.
- Mae'r mwy o ymgynghori rhwng Awdurdodau Rheoli Risg wedi gwella'r wybodaeth am gamau sy'n cael eu cymryd gan eraill, er nad yw'n eglur bod hyn wedi arwain at newid sylweddol i'r hyn sy'n cael ei wneud nac na fyddai gwybodaeth debyg yn cael ei rhannu i'r un graddau trwy grwpiau cydweithredol a sefydlwyd yn dilyn y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.
- Mae'n debyg y bu mwy o gyfathrebu pwerau a dyletswyddau trigolion eu hunain er mai'r camau hyn yw'r lleiaf tebygol o gael eu datblygu o hyd.
- Mae bod wedi cyflwyno a chyhoeddi camau yn ffurfiol yn gwneud y broses o olrhain a bwrw ymlaen â chamau yn haws ac yn fwy tryloyw, ond gall cyhoeddi'r holl adroddiadau olygu bod pwysau i fwrw ymlaen â chamau yn seiliedig ar y partïon mwyaf llafar yn hytrach na thrwy ddadansoddiad diduedd o flaenoriaethau.

102. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

- Roedd y blaenoriaethu a'r broses gwneud penderfyniadau yn yr awdurdod eisoes yn rhagweithiol yn y maes hwn. Gallai'r statws a'r terfynau amser cyfartal ar gyfer pob adroddiad i'w gyhoeddi dynnu oddi wrth flaenoriaethu er nad yw'n ymddangos bod hyn wedi bod yn broblem sylweddol. Fodd bynnag, defnyddir yr adrodd yn aml i gefnogi ceisiadau i'r tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn LlC i gynlluniau symud ymlaen i'r cam Achos Cyfiawnhad Busnes neu Achos Busnes Amlinellol.

- Mae'r adrodd yn sicr yn codi proffil yr Adran â Chynghorwyr sydd bob amser â diddordeb mewn digwyddiadau yn eu ward.
- O gofio y rhoddir yr un terfynau amser ar gyfer yr holl adroddiadau a bod digwyddiadau llifogydd mawr yn arwain at gynnydd sydyn ond anghynaliadwy i lwyth gwaith, maent yn arwain at ddefnyddio ymgynghorwyr yn hytrach na staff awdurdodau ac maent yn anfanteisiol o ran dyrannu adnoddau. Gan fod ymgynghorwyr yn tueddu i gael eu defnyddio ar y materion mwy arwyddocaol, gall hyn leihau profiad staff awdurdodau o ymchwilio i'r digwyddiadau â'r flaenoriaeth uchaf.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

**(4 adroddiad a19)**

103. Er na ymatebodd CBS Caerffili i'r holl gwestiynau a godwyd, fe wnaethant ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am rai o'r heriau mewn Awdurdodau Rheoli Risg o ran paratoi, cyhoeddi a bwrw ymlaen â mesurau mewn ymchwiliadau ac adroddiadau a19.

104. Yn dilyn llifogydd mis Chwefror 2020, gwnaed y prif waith yn ymwneud ag adroddiadau'r ymchwiliadau a19 gan ymgynghorwyr allanol oherwydd capasiti adnoddau o fewn y tîm. Mae hyn wedi galluogi pob dull adolygu llifogydd i gael ei gwblhau ynghyd â thrafodaethau ag Awdurdodau Rheoli Risg cyfagos am y digwyddiad a'i effeithiau.

105. Mae cynnal parhad drwy'r broses wedi bod yn anodd ac amlygwyd anawsterau ynghylch effaith Covid ar gasglu a pharatoi gwybodaeth, ymgysylltiad cymunedol a blaenoriaethau o ran adnoddau; a newidiadau yn gysylltiedig ag etholiadau'r Senedd a Llywodraeth Leol. Ers i ymgynghorwyr gael eu cyflogi i gyflawni adroddiadau a19, bu dau newid hefyd i'r swydd Prif Beiriannydd yn yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol a thri newid i'r swydd Aelod Cabinet â chyfrifoldeb portffolio am faes rheoli perygl llifogydd.

106. Mae'r heriau a amlinellir uchod yn golygu nad yw'r pedwar adroddiad adran 19 a gyflawnwyd ar hyn o bryd wedi'u cyhoeddi eto, ond nid yw hyn yn golygu nad yw gwaith yn cael ei ddatblygu yn y lleoliadau a nodir yn yr adroddiadau drafft. Mae tri o'r pedwar safle yn cael eu symud drwy'r broses achos busnes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar hyn o bryd, fel y crynhoir isod:

    - Birchgrove, Tredegar Newydd – ar y cam Achos Cyfiawnhad Busnes ar hyn o bryd; cais piblinell wedi'i gymeradwyo i symud ymlaen i ddyluniad manwl ym mlwyddyn ariannol 2023/24 (yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes).
    - Edward Street, Ystrad Mynach – ar y cam Achos Busnes Llawn/dylunio manwl ar hyn o bryd.
    - Lôn yr Afon, Llanbradach – ar y cam Achos Busnes Amlinellol ar hyn o bryd.

107. Nodwyd bod y pedwerydd safle ym Machen wedi dioddef llifogydd o'r brif afon gan symud i fyny'r cwrs dŵr cyffredin ac yna dŵr llifogydd yn mynd y tu ôl i brif amddiffynfeydd yr afon. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi gwneud gwaith atgyweirio a gwelliannau yn yr ardal hon.

108. Mae capasiti a blaenoriaethu o fewn yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ochr yn ochr â chynnal parhad hefyd wedi effeithio ar ddatblygu achosion busnes ond nid yw bwrw ymlaen â'r rhain yn ddibynnol ar gyhoeddi adroddiadau adran 19 a fydd yn cael eu cyhoeddi maes o law.

## Cyngor Sir Ddinbych

**(2 adroddiad a19)**

109. Dim datganiad. Adroddiadau wedi'u cyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

## Cyngor Sir y Fflint

**(1 adroddiad a19)**

110. Dim datganiad. Ni luniwyd adroddiad a19 o ganlyniad i stormydd mis Chwefror 2020.

## Cyngor Gwynedd

**(21 adroddiad a19)**

111. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r prif bwyntiau dysgu yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

- Yn y gorffennol, mae Cyngor Gwynedd wedi ceisio llunio adroddiad adran 19 ar gyfer pob un digwyddiad llifogydd, ond wrth i amser fynd heibio rydym wedi dysgu nad oes modd cyflawni hyn o fewn cyfnod amser rhesymol bob amser. O ganlyniad, gwnaeth Gwynedd y penderfyniad i newid ei bolisi a pharatoi adroddiad adran 19 ar gyfer digwyddiadau llifogydd mwy sylweddol yn unig (ond ni phennwyd trothwyon penodol), yn seiliedig ar faint y digwyddiad a'r angen i rannu gwybodaeth gydag Awdurdodau Rheoli Risg eraill. Ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn sbarduno adroddiad adran 19 llawn, bydd adroddiad cryno yn cael ei lunio i nodi manylion sylfaenol gan gynnwys y derbynyddion a ffynhonnell y llifogydd o leiaf.
- Mae llunio adroddiadau adran 19 a Chryno wedi galluogi Cyngor Gwynedd i ddeall yn well y peryglon amrywiol sy'n wynebu ein cymunedau, ac wedi caniatáu i ni fapio pob digwyddiad llifogydd, sydd wedi ein helpu wedyn i lunio a blaenoriaethu ein strategaeth rheoli perygl llifogydd leol. Mae canfyddiadau ein hymchwiliad wedi helpu'r tîm i nodi camau a allai leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau tebyg neu nodi mesurau i leihau'r effeithiau. Un o swyddogaethau allweddol y broses adrodd yw ei bod yn nodi meysydd lle ceir problemau ac felly'n gallu hysbysu rhaglenni buddsoddi'r dyfodol.

112. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

- Mae adroddiadau adran 19 neu Grynodeb Llifogydd wedi bod yn hynod werthfawr o ran casglu gwybodaeth nid yn unig i Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ond hefyd fel ffordd o hysbysu Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol eraill. Er ein bod yn atgoffa perchnogion

eiddo yn weithredol mai nhw sy'n gyfrifol yn y pen draw am amddiffyn eu heiddo rhag llifogydd, gallai Gwynedd benderfynu dilyn canlyniad yr ymchwiliad llifogydd gydag un o'r canlynol:

**Hysbysu:** Dim camau eglur i'r Cyngor eu cymryd ar ôl cwblhau'r ymchwiliad llifogydd (dim dadl eglur dros welliant llifogydd a dim rheswm i ystyried defnyddio pwerau'r Ddeddf Draenio Tir). Yn yr achosion hyn, dylai'r cwsmer gael ei hysbysu am fesurau lefel eiddo y gellid eu hystyried i gynyddu gwydnwch/cydnerthedd yn erbyn llifogydd yn y dyfodol.

**Monitro:** Mae'r ymchwiliad llifogydd yn amhendant ac felly mae angen monitro'r sefyllfa ymhellach yn y dyfodol. Dylai'r cwsmer gael ei annog i gynorthwyo gyda'r monitro a rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda'r Cyngor.

**Rhoi pwerau ar waith:** Os bydd yr ymchwiliad llifogydd wedi nodi bod esgeuluso gwaith cynnal a chadw neu gyfrifoldebau glannau afon yn cyfrannu at berygl llifogydd, dylai'r Cyngor wneud gwaith dilynol ar hyn gyda'r partïon perthnasol i sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei chywiro cyn gynted â phosibl – gallai'r rhain fod yn berchennog tir preifat, neu'n sefydliad arall neu'n adran Cyngor.

**Gwella:** Gallai'r ymchwiliad nodi y gellid rheoli perygl llifogydd trwy ymyrraeth sy'n gymesur i'r perygl llifogydd. Ni ddylai adran 19 wneud argymhellion ar gyfer gwelliannau gan nad yw'r gallu i wneud gwaith cyfalaf bob amser o dan reolaeth y Cyngor.

**Astudio:** Gallai natur y broblem gyfiawnhau astudiaeth fanwl i ddarganfod yn well maint a lefel y perygl llifogydd (gan gynnwys arolwg neu waith modelu o bosibl) a nodi opsiynau gwella posibl.

**Trosglwyddo:** Trosglwyddo ymlaen i Awdurdod Rheoli Risg arall neu adran arall yn y Cyngor.

113. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

- Ydy. Mae adrodd ar nifer yr adroddiadau a19 wedi dod yn elfen annatod o'n swyddogaeth o fewn yr Awdurdod. Er gwaethaf y ffaith mai'r cwbl y mae'n ei wneud fel mesur yr amlinellu gofyniad gwaith, mae hyn hefyd yn dynodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni neu dangyflawni ein dyheadau.
- Mae hefyd yn elfen bwysig yn ein blaenoriaethau o ddalgylchoedd sy'n ffurfio ein dull ar gyfer ceisio cyllid ar gyfer ymyriadau. Rydym hefyd yn gobeithio rhoi trefnau monitro ar waith ar ôl ymyriadau fel y gallwn ddangos effeithiau cadarnhaol. Er enghraifft, arweiniodd digwyddiad diffinedig mewn lleoliad penodol at 'x' o adroddiadau a19 cyn ymyrraeth, tra cafodd digwyddiad tebyg lai o effaith ar ôl ymyrraeth.
- Defnyddir adroddiadau a19 fel elfen dweud y gwir mewn dull sy'n blaenoriaethu dalgylchoedd ar sail perygl damcaniaethol.

# Cyngor Ynys Môn

**(36 adroddiad a19)**

114. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r pwyntiau dysgu yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

- Bod dull partneru rhwng Awdurdodau Rheoli Risg yn hanfodol i gael camau cyflym ac effeithiol i leihau perygl llifogydd a darparu'r gwasanaeth gorau i'r cwsmer.
- Ein bod wedi dysgu, mewn rhai achosion, nad oes angen llunio adroddiad llawn. Gallai cofnodi'r digwyddiad fod yn ddigonol. Bu gennym drothwy isel iawn yn hanesyddol, ond bydd hwn yn cael ei adolygu wrth i'n Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol leol gael ei hadnewyddu.
- Y mwyaf buan y bydd yr wybodaeth yn cael ei chasglu y mwyaf effeithiol y gall yr adroddiad fod. Mae'r ymgysylltiad cyntaf ac ymgysylltiad dilynol pellach yn hanfodol i gamau fod yn effeithiol. Mae rhai pobl yn anghofio'n gyflym eu bod mewn perygl.
- Rydym yn credu y gallai templed safonol ar gyfer adroddiadau ymchwiliadau llifogydd adran 19 fod o fudd. Byddai'n gwella adroddiadau trwy ddysgu o arferion da ledled Cymru.
- Ceisio cadw adroddiadau yn fyr, yn eglur ac yn gryno.

115. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

- Rydym yn teimlo ein bod wedi bod yn weddol lwyddiannus, mae'r rhan fwyaf o'n hadroddiadau ymchwiliadau llifogydd a19 wedi arwain at rai camau i leihau perygl llifogydd. Rydym ni ar Ynys Môn hefyd yn eithaf llwyddiannus o ran sicrhau cyllid grant LlC i wneud gwaith ac rydym yn teimlo bod hyn wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'n gwaith ymchwilio.
- Fodd bynnag, rydym wedi canfod nad yw argymhellion yn yr adroddiad adran 19, i berchnogion tai perthnasol, bob amser yn cael eu cymryd o ddifrif gan berchnogion tai nad ydynt yn cael eu heffeithio yn uniongyrchol. Yn enwedig pan allai achos y llifogydd fod wedi bod yng nghwrtil eiddo drws nesaf (i'r un a ddioddefodd lifogydd) sy'n llai agored i berygl llifogydd.
- Rydym o'r farn y gall paratoi adroddiad ymchwiliad llifogydd gael effaith gadarnhaol wrth drafod ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill mater lle mae'r perygl yn cael ei rannu.
- Nid yw bob amser wedi bod yn bosibl bwrw ymlaen â rhai camau oherwydd adnoddau staff cyfyngedig yn y tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Gyda'r cynnydd a rhywfaint o sicrwydd tymor hwy yn y dyraniad grant refeniw, mae'r mater hwn yn cael sylw ac rydym wedi penodi Uwch Beiriannydd newydd a Swyddog Ymgysylltu Cymunedol newydd yn ddiweddar i gynorthwyo.

116. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

- Ydy. Rydym wedi bod yn rhy uchelgeisiol efallai o ran paratoi adroddiadau ar gyfer materion llai, ond rydym yn teimlo bod hyn wedi helpu, yn enwedig wrth ddarparu tystiolaeth o geisiadau Cynlluniau Graddfa Fach. Rydym yn adolygu hyn gan y gall cofnodi digwyddiadau llifogydd fod yn ddigonol os caiff data eu casglu yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod adroddiadau ymchwiliadau llifogydd wedi bod yn hanfodol bwysig o ran blaenoriaethu cynlluniau mwy.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**(1 adroddiad a19)**

117. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r pwyntiau dysgu yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

- Gan na aethpwyd y tu hwnt i drothwyon a19 o'r blaen, sbardunodd y llifogydd mewnol i eiddo a welwyd yn ystod Storm Dennis yr ymchwiliad a19 cyntaf y bu'n rhaid i CBSMT ei gynnal. Ni ellir tanbrisio pa mor bwysig yw dod â'r adroddiadau hyn at ei gilydd.
- Mae'r adroddiad yn ddull gorfodol i gyrff rheoleiddio edrych ar bob ffynhonnell o lifogydd. Gan fod llawer o Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol hefyd yn ymwneud â materion gweithredu a chyflawni cynlluniau adweithiol i fynd i'r afael â phroblemau llifogydd uniongyrchol, mae'r ymchwiliad a19 yn caniatáu i'r corff rheoleiddio gamu yn ôl o'r canlyniadau ac ystyried beth yw'r problemau ar raddfa ehangach.
- Mae'r adroddiadau yn cynnig gwybodaeth i wahanol randdeiliaid o'r problemau uniongyrchol ac yn amlygu i'r ALl yr hyn a aeth o'i le, yr hyn y mae angen ei wella a lle mae angen rhagor o fuddsoddiad.
- Mae'r adroddiad yn amlygu rhai methiannau ar draws Awdurdodau Rheoli Risg/sefydliadau lluosog a dylai fod yn gatalydd ar gyfer gwella ar raddfa dalgylch. Mae mewnbwn gorfodol gan Awdurdodau Rheoli Risg/sefydliadau perthnasol/perchnogion galannau afon wrth ddrafftio'r adroddiadau hyn yn hanfodol ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau llifogydd yn y dyfodol.

118. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

- Mae CBSMT wedi bod yn llwyddiannus o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad, er bod rhai meysydd sydd angen rhagor o amser a buddsoddiad. I awdurdod bach lle nad yw buddsoddiad mewn atal llifogydd wedi bod yn flaenoriaeth erioed, mae wedi perfformio'n dda.
- O'r 51 o gynlluniau lliniaru llifogydd/adfer tir a nodwyd yn yr adroddiad a19, mae 47 o'r cynlluniau hyn wedi'u cwblhau erbyn hyn neu wrthi'n cael eu hadeiladu. Bydd y cyllid brys a ddarparwyd gan LlC i gefnogi'r cynlluniau hyn yn dod i ben ym mis Ebrill felly mae'r pedwar cynllun sy'n weddill yn annhebygol o gael eu cwblhau gan ddefnyddio'r ffrwd gyllid hon. Bydd angen defnyddio ffrwd cyllid piblinell LlC er mwyn eu cwblhau.
- Cynhaliwyd adolygiad o offer brys angenrheidiol a diweddarwyd cynllun gweithredu brys ar lifogydd CBSMT yn unol â hynny.
- Roedd llawer o'r digwyddiadau llifogydd a welwyd yn ystod stormydd 2020 o ganlyniad i archwiliadau/cynnal a chadw gwael o asedau/nodweddion o ran awdurdodaeth cyrff rheoleiddio eraill (Cyfoeth Naturiol Cymru/DCWW/TrC). Ni roddwyd sylw i waith cynnal a chadw parhaus hanfodol ar gyrff dŵr ac amddiffynfeydd rhag llifogydd eto e.e. dioddefwyd llifogydd difrifol o gamlas Morgannwg yn ystod storm Dennis. 2 flynedd yn ddiweddarach, ac nid oes unrhyw drefn cynnal a chadw wedi cael ei gweithredu gan DCWW a cheir perygl uchel o lifogydd ar y corff dŵr hwn o hyd.
- Mae sicrhau bod perchnogion glannau afon yn cyflawni archwiliadau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn parhau i fod yn her.
- Ceir perygl uchel o lifogydd o rannau o afon Taf o hyd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach wedi ffurfio partneriaeth uwchgynllun dalgylch Taf o edrych ar fynd i'r afael â chynlluniau byrdymor/hirdymor gydag Awdurdodau Rheoli Risg.

- Mae ymgysylltu â'r cymunedau sydd yn y perygl mwyaf yn parhau i fod yn faes y dylai CBSMT geisio buddsoddi adnoddau ynddo.

119. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

- Mae llunio'r adroddiad wedi amlygu i wleidyddion a rhanddeiliaid natur gymhleth problemau perygl llifogydd. Nid yw problemau perygl llifogydd yn unigryw i gyrsiau dŵr cyffredin ac afonydd ond mae angen eu hasesu o ffynonellau eraill e.e. dŵr daear o weithfeydd cloddio a charthffosydd sydd eisoes yn gweithio i'w capasiti llawn.
- Gan fod cyfrifoldebau am y ffynonellau hyn yn amrywio ar draws gwahanol berchnogion tir neu sefydliadau, mae'n aml yn anodd sicrhau dull cyfannol ac ymrwymiad gan bartïon cyfrifol i ddatrys problemau penodol.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn buddsoddi'n drwm mewn cynnal ei amddiffynfeydd/asedau llifogydd ei hun ond oni bai fod perchnogion glannau afon yn gwneud yr un ymrwymiad, weithiau nid yw'r gwaith da a wneir o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r holl berygl llifogydd.
- Rydym yn deall lle ddylai'r blaenoriaethau fod, ond mae mynd i'r afael â pherygl llifogydd fel rheol yn fater dalgylch cyfan ac ni ellir bob amser datrys problemau trwy ymgymryd â chynlluniau lliniaru llifogydd lleol.
- Mae buddsoddiad yn dueddol o fod yn adweithiol i ddigwyddiadau llifogydd ac oherwydd cyfyngiadau cyllidebol arferol, diffyg adnoddau yn ogystal â'r cyfrifoldebau niferus a neilltuir i adrannau Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol sydd eisoes wedi'u hymestyn, mae cynllunio strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd bob amser yn her.

## Cyngor Sir Fynwy

**(10 adroddiad a19)**

120. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r pwyntiau dysgu yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

- Cymerodd ysgrifennu, cadarnhau a chyhoeddi'r adroddiadau adran 19 lawer o amser ac anodau, yn enwedig o orfod llunio adroddiadau lluosog o'r un digwyddiad llifogydd.
- Cymerodd casglu gwybodaeth o ffynonellau lluosog fel trigolion a busnesau a oedd wedi dioddef llifogydd ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill lawer o amser yn arbennig ac roedd yn aml yn golygu anfon sawl cais.
- Byddem yn ystyried defnyddio fersiwn wedi'i byrhau o'r templed adroddiad a19 presennol, yn enwedig ar gyfer yr adroddiad cyhoeddedig terfynol, pe bai angen yn codi i lunio adroddiadau lluosog yn y dyfodol.

121. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

- Ar ôl cwblhau'r holl adroddiadau, lluniwyd rhestr o argymhellion gennym. Rydym yn gweithio drwy'r argymhellion a neilltuwyd i ni fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, a rhoddwyd sylw i'r rhai mwyaf brys ar adeg ysgrifennu hyn neu'n syth ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Mae rhai camau yn rhai tymor hwy a byddant yn gofyn am adnoddau a/neu gyllid ychwanegol.

- Rydym wedi ei chael yn anodd ar adegau cael diweddariadau gan Awdurdodau Rheoli Risg eraill ar gynnydd argymhellion a neilltuwyd i'w sefydliadau nhw. Gall hyn achosi rhwystredigaeth i ni a chymunedau lleol sy'n dymuno cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gamau/bwriadau yn y dyfodol.

122. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

- Ydy. Mae nifer o gynlluniau yn cael eu datblygu nawr yn dilyn canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiadau a19. Mae'r adroddiadau wedi darparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer ceisiadau am grantiau cynllun llifogydd, uwch swyddogion a'r cyhoedd.
- Mae'r adroddiadau hefyd yn cynnig crynodeb gwych o'r digwyddiadau llifogydd a fydd o ddefnydd i beirianwyr yn y dyfodol pe bai'r un pethau'n digwydd eto.

## Cyngor Castell-nedd Port Talbot

**(8 adroddiad a19)**

123. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r pwyntiau dysgu yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

- Sicrhau bod cynllun ar waith i gasglu gwybodaeth o ansawdd da yn ystod y digwyddiad. Mae Swyddogion Perygl Llifogydd yn aml yn cymryd rhan yn ystod digwyddiad, gyda gwaith clirio brys a siarad â'r rhai sydd wedi'u heffeithio. Mae'n hanfodol bod swyddogion yn casglu ac yn cofnodi cymaint o ddata â phosibl a fydd yn cynorthwyo gyda datblygiad adroddiad a19, ar ôl y digwyddiad. H.y. Datganiadau perchnogion tai, llwybrau llif, dyfnderau lefel dŵr, graddau dŵr llifogydd, mecanweithiau ar gyfer llifogydd, lluniau, nifer o eiddo sydd wedi dioddef llifogydd mewnol, nifer o eiddo sydd wedi'u heffeithio, gwybodaeth am lawiad yn arwain at y digwyddiad ac yn ei ystod, pa fesurau/camau a roddwyd ar waith i liniaru'r llifogydd yn ystod y digwyddiad ac ati. Y mwyaf o wybodaeth sy'n cael ei chofnodi, y mwyaf manwl ac addysgiadol y gall yr adroddiad a19 fod. Rydym yn defnyddio cronfa ddata **'Mynd i'r afael â llifogydd'** Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn defnyddio eu ffurflenni i lenwi gwybodaeth ar gyfer pob eiddo sy'n cael ei effeithio.

124. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

- Rydym wedi rhoi'r holl argymhellion ar waith o'r holl adroddiadau a19 a gyhoeddwyd. Rydym yn teimlo ein bod wedi perfformio'n dda o ran datblygu adroddiadau a19 a gweithredu ar eu sail. Rydym wedi cyhoeddi 6 adroddiad ers 2016 ac mae gennym 2 ar ffurf drafft ar hyn o bryd, a ddylai gael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2023. Mae gennym adroddiad templed wedi'i sefydlu fel bod pob adroddiad yn debyg ac yn cynnwys (yn ein barn ni) gwybodaeth berthnasol. **www.npt.gov.uk/8057 Dolen i'r Adroddiadau**

125. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

- Rydym yn canfod bod gan aelodau cyngor a thrigolion lleol ddiddordeb yn yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau, bod canlyniadau ac argymhellion yn rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n cael eu heffeithio bod y cyngor yn cymryd camau i liniaru llifogydd rhag digwydd eto. Mae hefyd yn cynnig gwybodaeth i'r rhai sy'n cael eu heffeithio am bwy sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd mewn ardal benodol, efallai na fyddent wedi bod yn ymwybodol ohono yn flaenorol. Hefyd, rydym yn canfod bod adroddiadau a19 yn ddefnyddiol iawn i adrodd i swyddogion LlC yn ogystal â rheolwyr mewnol. Fe'u defnyddir hefyd fel dogfennau ategol/tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am grantiau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol i ddatblygu prosiectau.

## Cyngor Dinas Casnewydd

**(1 adroddiad a19)**

126. Dim datganiad. Ni luniwyd adroddiad a19 o ganlyniad i stormydd mis Chwefror 2020.

## Cyngor Sir Penfro

**(1 adroddiad a19)**

- Ddydd Gwener 3 Ionawr 2014, yn dilyn cyfnod o wyntoedd grym tymestl a storm a systemau gwasgedd isel parhaus, cynhyrchwyd ffurfiannau tonnau mawr ac ymchwydd llanw ar hyd arfordir Sir Benfro. Arweiniodd hyn, ar y cyd â Gorllanwau Seryddol Uchel, at ddigwyddiad llifogydd yn Nhref Isaf Abergwaun, Sir Benfro.
- Er na chyrhaeddodd y trothwy i sbarduno ymateb adran 19, trafodwyd y digwyddiad (dechrau mis Rhagfyr 2014), gyda'r Uwch Beiriannydd a'r Peiriannydd Arfordirol ac Afonydd (mae'r ddau wedi ymddeol erbyn hyn) lle penderfynwyd y byddai ymchwiliad adran 19 o fudd, gan y byddai'n codi ymwybyddiaeth o'r hyn a oedd yn ofynnol i baratoi adroddiad ac y gellid ei ddefnyddio fel templed yn y dyfodol ar gyfer digwyddiadau llifogydd eraill. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Draenio Tir a Llifogydd yn cyflawni'r dasg hon. Ni fwriadwyd cyhoeddi'r Adroddiad ar gyfer y cyhoedd.
- Penderfynwyd ar ôl ei gwblhau y gellid cyhoeddi'r adroddiad ar gyfer y cyhoedd a gymeradwywyd ar 01/02/2016. Deallir nad oedd unrhyw rwymedigaeth i wneud hyn.
- Ni fu unrhyw achosion o lifogydd yn Sir Benfro lle ystyriwyd y cyrhaeddwyd y lefelau sbarduno ar gyfer Adroddiad adran 19.

127. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r pwyntiau dysgu yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

- Pa wybodaeth sydd ei hangen i lunio'r adroddiad
- Sut i gyflwyno'r adroddiad
- Nodi rhanddeiliaid
- Cyfathrebu â rhanddeiliaid.

128. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

- Rhoddwyd camau ôl-ddigwyddiad ar waith er boddhad Uwch Beiriannydd a Pheirianwyr Arfordirol/Afonydd yr Awdurdod (mae'r ddau wedi ymddeol).
- Ni fodlonwyd disgwyliadau trigolion. Roeddent yn teimlo y dylai'r adroddiad amlygu pa fesurau ddylai'r Awdurdod eu cymryd i atal digwyddiadau yn y dyfodol. H.y. rhwystr llanw a chynlluniau eraill yr ystyriwyd nad oeddent yn ymarferol.

129. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

- O ganlyniad i'r adroddiad, cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus rhwng trigolion, Mr Paul Davies (AC), Swyddogion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd ag Uwch Swyddogion o Gyngor Sir Penfro. Diben hyn oedd trafod yr Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Penfro ar bwnc y llifogydd difrifol a gafwyd yn 2014. Cynhaliwyd cymorthfeydd galw heibio hefyd a deallir bod swyddogion o Gyngor Sir Penfro, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru a Dŵr Cymru Welsh Water yn bresennol ynddynt.
- Fe wnaeth yr adroddiad, a hysbysebwyd yn eang, godi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau eraill o ran pa mor agored ydynt i ddigwyddiadau llifogydd oherwydd y newid yn yr hinsawdd.
- O ganlyniad i ymwybyddiaeth uwch, deallir bod cefnogaeth gan drigolion yn galluogi'r Awdurdod i sicrhau cyllid ar gyfer gosod llifddorau yn Aber Bach.

## Cyngor Sir Powys

**(4 adroddiad a19)**

130. Dim datganiad.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**(19 adroddiad a19)**

131. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r pwyntiau dysgu yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

- Er bod gofynion adrodd gwirioneddol a19 yn gymharol syml, mae disgwyliad y cyhoedd o faint o fanylion sy'n cael eu cynnwys yn uchel iawn. Ceir cydbwysedd rhwng bodloni'r disgwyliad hwn a dim ond gwneud digon i gyflawni gofynion adran 19.

- Drwy gasglu'r wybodaeth ymchwilio mewn modd strwythuredig gyda swyddogion mewnol, ymgynghorwyr a chontractwyr, gan gadw'r brif awduraeth o fewn arbenigedd tîm Rheoli Perygl Llifogydd RhCT, sydd â gwybodaeth leol a gweithredu, gwnaeth hyn alluogi penderfyniadau a chamau gweithredu i fod yn ddynamig drwy'r holl broses. Gweler Cwestiwn 2 isod. Yn ein barn ni, ni fyddai'r broses hon wedi bod mor ddynamig pe bai'r adroddiad a19 wedi cael ei lunio gan ymgynghorwyr, gan y byddai adborth wedi bod yn arafach.
- Yn seiliedig ar adborth y cyhoedd, roedd yn amlwg bod cyhoeddi adroddiad a19 yn tawelu meddylia'r cyhoedd, bod yr Awdurdod Rheoli Risg cyfrifol yn deall achos y llifogydd a'r camau a gymerwyd ac a fydd yn cael eu cymryd.

132. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

- Trwy gymorth grantiau Llywodraeth Cymru a chyllid cyfalaf RhCT, rydym yn credu bod RhCT wedi bod yn llwyddiannus iawn.
- Fe wnaeth yr ymchwiliadau ddarparu proses o feddwl a strwythur parhaus i flaenoriaethau camau i'r byrdymor, y tymor canolig a'r tymor hwy a chrynhowyd y rhain ar yr adeg gyhoeddi. Rhestrir crynodeb o'r HOLL gamau hyd at fis Hydref 2022 isod:

| Awdurdod Rheoli Risg | Cyfanswm Nifer y Camau Gweithredu | Cyfanswm Nifer y Camau Gweithredu a Gwblhawyd | % Wedi'u Cwblhau | Cyfanswm Nifer y Camau Gweithredu sy'n Parhau | Cyfanswm Nifer y Camau Gweithredu sydd eto i'w cychwyn |
|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | 380 | 267 | 70.26% | 89 | 24 |
| Yr Awdurdod Priffyrdd | 95 | 85 | 89.4% | 10 | 0 |
| Cyfansymiau | 475 | 352 | 74.11% | 99 | 24 |

- Mae'r 99 o gamau parhaus a'r 24 o gamau sydd yn yr arfaeth yn strategol, yn fuddsoddi neu'n dymor hwy yn bennaf.
- Rhagwelir y bydd y mwyafrif yn cael eu hymgorffori yn yr Adolygiad **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol** sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a gychwynnodd ym mis **Rhagfyr 2022**, i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2024.
- Bydd cenhedlaeth nesaf y Strategaeth Lifogydd Leol hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu 1-6 mlynedd a fydd i bob pwrpas yn disodli'r **Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd** a gwblhawyd o dan y Rheoliadau Perygl Llifogydd (Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE).
- Nid yn unig y bydd hyn yn cynnig cyfle i integreiddio'r **Strategaeth Perygl Llifogydd Genedlaethol**, ond hefyd **Strategaeth Newid Hinsawdd**, newydd y Cyngor, strategaeth fuddsoddi fyrdymor, tymor canolig a thymor hwy a gwaith partneriaeth fel y nodir mewn adroddiadau adran 19 ac unrhyw bolisi strategol yn ymwneud â pherygl llifogydd dŵr wyneb yn cyfrannu at gynllunio datblygiad (TAN15 wedi'i ddiwygio).

133. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

- Mae'r adroddiad a19 ynghyd â'r adroddiad i'r Cabinet ym mis Hydref 2020 '**Adolygiad o reoliadau, ymwybyddiaeth a gorfodi deddfwriaeth llifogydd a dŵr**' wedi codi ymwybyddiaeth, sydd yn ei dro wedi cynyddu rheoli perygl llifogydd fel blaenoriaeth gorfforaethol. Mae hefyd wedi darparu tystiolaeth ar gyfer mwy o adnoddau ac ychwanegwyd 2 aelod o staff llawn amser ychwanegol at y tîm rheoli perygl llifogydd a 3 swydd dros dro arall, Swyddog Graddedig, Prentis a Thechnegydd Asedau wedi'u cefnogi gan grant refeniw LlC i ddatblygu cydnerthedd. Hefyd, crëwyd Tîm Cynnal a Chadw Draeniau Glaw penodol yn ogystal ag Ystafell Reoli Ganolog.
- Mae gan y Cyngor raglen fuddsoddi 4-5 mlynedd bellach, yn seiliedig ar gamau a flaenoriaethwyd o'r adroddiad a19. Ym mis Rhagfyr 2021, gwnaeth y Cyngor gais am 'Gymeradwyaeth mewn Egwyddor' i 17 o gamau prosiect mawr yn rhan o **Raglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2022 i 2023**. Bu cyfanswm o £13 miliwn o fuddsoddiad rhwng Storm Dennis a mis Ebrill 2021 ac mae'r **rhaglen fuddsoddi** yn parhau. Gwnaed Cyflwyniad pellach ym mis Rhagfyr 2022 ar gyfer 15 o gamau prosiect pellach.

## Cyngor Abertawe

**(1 adroddiad a19)**

Mae'r Awdurdod wedi cwblhau un Adroddiad a19 a gyhoeddwyd a darperir dolen yn unol â hynny.
**www.abertawe.gov.uk/ymchwilioilifogydd?lang=cy**

134. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r pwyntiau dysgu yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

- Tua £17,000 oedd y gost o lunio'r Adroddiadau a19 ar gyfer Beryl Road, a oedd angen cyllid LlC i gynorthwyo'r gwaith o lunio'r adroddiad. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw adnodd mewnol i gyflawni gwaith o'r natur hon a dyfarnodd gontract i Atkins ym mis Awst 2020 ac fe'i cwblhawyd ym mis Hydref 2021. I bob pwrpas, cymerodd dros flwyddyn i gwblhau'r ymchwiliad.
- Yr angen am ymgynghori cyhoeddus a llunio holiaduron i gael adborth ar brofiadau a chael gwybodaeth am achosion posibl llifogydd. Bu'n rhaid cyfieithu'r rhain a arweiniodd at oedi.
- Bu angen cydweithredu â DCWW yn rhan o'r gwaith gan fod cyfarpar DCWW hefyd wedi cyfrannu at y llifogydd.

135. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

- Roedd camau niferus yn angenrheidiol yn ystod y broses o lunio'r adroddiad.
- Roedd angen arolygon teledu cylch cyfyng a chasglu data ar asedau ar systemau draenio sy'n gwasanaethu'r dalgylch.

- Casglwyd gwybodaeth am lifogydd hanesyddol i hysbysu'r adroddiad a19.
- Cynhaliwyd ymweliadau safle niferus a chynhaliwyd trafodaethau gyda pherchnogion tir trydydd parti i gael caniatâd i wneud gwaith clirio ffosydd i wella nodweddion cludo'r ffosydd sy'n gwasanaethu'r dalgylch. h.y. i wella amodau llif.
- Cyflogi contractwr arbenigol ar gyfer mynediad at fan cyfyng i asesu cyflwr system cwlfert diamedr mawr a oedd yn gwasanaethu'r ardal. Roedd angen gwaith clirio ar y cwlfert a chwblhawyd hwn er mwyn gwella cludiant.

I grynhoi, pe gellid cyflawni gwaith mân trwy fwy o gynnal a chadw, yna gwnaed hyn.

136. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

    - Mae cwblhau'r adroddiad a19 wedi galluogi'r Awdurdod i ddeall maint y perygl llifogydd ac achosion sy'n cyfrannu at y llifogydd yn y gymuned leol.
    - Gwnaed penderfyniadau pellach i wneud cais am Achos Cyfiawnhad Busnes, cyllid grant LlC, er mwyn penderfynu pa welliannau sy'n angenrheidiol i liniaru rhag y perygl o lifogydd, yn ogystal â'r mân waith cynnal a chadw y cyfeiriwyd ato isod sydd wedi cael ei gwblhau ers hynny.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**(1 adroddiad a19)**

137. Dim datganiad. Ni luniwyd adroddiad a19 o ganlyniad i stormydd mis Chwefror 2020.

## Cyngor Bro Morgannwg

**(2 adroddiad a19)**

138. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r pwyntiau dysgu allweddol yr ydych wedi eu cymryd o lunio'r adroddiadau hyn?

    - Mae'r broses a19 yn darparu fframwaith eglur ar gyfer cyfiawnhau adnoddau/amser i ymchwilio'n briodol a chrynhoi'r canlyniadau.
    - Mae angen bod yn ofalus i beidio ag oedi adroddiadau yn ormodol tra'n disgwyl am waith casglu tystiolaeth/glanhau/archwiliadau, ond ar yr un pryd mae'n rhaid casglu digon o wybodaeth i wneud yr adroddiadau yn gynhwysfawr ac iddynt beidio ag arwain at dybiaethau anghywir ynghylch cyfrifoldeb yr Awdurdod Rheoli Risg.
    - Mae'n rhaid bod yn ofalus hefyd i sicrhau nad yw gweithrediad camau brys a argymhellwyd yn cael effaith niweidiol ar y ddarpariaeth o adroddiadau a19 na chyflawnwyd mewn lleoliadau eraill.
    - Mae'n rhaid i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol gynnal ymchwiliadau dilynol yn y gymuned gyfan yn hytrach na thybio bod Awdurdodau Rheoli Risg eraill yn llunio cofnod cynhwysfawr o'r digwyddiad.

- Bydd Awdurdodau Rheoli Risg eraill yn cyfyngu eu hymchwiliadau i'w cyfrifoldebau llifogydd gofynnol ac efallai na fyddant yn casglu gwybodaeth lawn am ryngweithio gwahanol ffactorau achosol, e.e. llifogydd dŵr wyneb a budr y mae'n debygol iddynt gael eu hachosi gan unigolion yn codi caeadau i geisio lliniaru llifogydd afonol i fyny'r afon.
- Ni allwn ddibynnu yn unig ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu asesiad cynhwysfawr o faint a graddau llifogydd afonol, ond trwy weithio ar y cyd a rhannu data gellir dod i safbwynt cyffredin a'i nodi yn yr adroddiad a19.
- Ar gyfer ymchwiliadau mwy fel yn Ninas Powys, derbyniwyd adroddiadau newydd gan lygad-dystion ac mae asedau dŵr wyneb anhysbys yn dal i gael eu nodi 18 mis yn ddiweddarach. Er na fu'n ofynnol hyd yma, efallai y bydd angen datblygu proses eglur ar gyfer cywiro neu ddiweddaru adroddiadau wrth i'n dealltwriaeth o fecanweithiau llifogydd esblygu ym mhob safle. Arweiniodd oedi cyn adrodd ar safleoedd lle'r oedd arolygon a gwybodaeth yr oedd Awdurdodau Rheoli Risg eraill yn meddu arnynt yn hollbwysig at bwysau sylweddol gan aelodau'r gymuned neu aelodau etholedig.
- Tybiodd y cyhoedd ac aelodau etholedig yn aml y byddai'r adroddiad a19 yn cynnwys ateb i ddatrys perygl llifogydd yn hytrach na chofnodi bod y llifogydd wedi digwydd. Gall negeseuon a chyfathrebu eglur helpu i reoli'r disgwyliadau hyn, a phan ellir ei gyfiawnhau, cynhyrchu cefnogaeth wleidyddol i ddatblygiad dilynol cynlluniau.

139. Pa mor llwyddiannus ydych chi wedi bod yn bwrw ymlaen â chamau ac argymhellion ôl-ddigwyddiad? (Gallai'r rhain fod yn gamau a nodwyd cyn, yn ystod neu ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiad a19)

- Nid yw camau a arweinir gan sefydliadau nad ydynt yn Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn cael eu monitro ar hyn o bryd.
- Ar y ddau safle (Sili a Dinas Powys) lle cyhoeddwyd adroddiadau a19 ar ôl llifogydd ym mis Rhagfyr 2020, argymhellwyd cyfanswm o 21 o gamau ac arweiniwyd 9 ohonynt gan yr awdurdod llifogydd lleol arweiniol (rhannwyd 2 ohonynt gydag Awdurdod Rheoli Risg arall). O'r camau a arweiniwyd gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, mae 5 wedi'u cwblhau, mae 3 yn cael eu datblygu ac nid yw 1 wedi cael ei ddatblygu. Dylid nodi bod gwahanol gamau yn gofyn am lefelau sylweddol wahanol o adnoddau ac amser i'w cwblhau, gyda rhai yn ddibynnol ar gamau eraill yn cael eu cwblhau fel rhagflaenydd.
- Cafwyd llwyddiant sylweddol o ran gosod mesurau lliniaru llifogydd eiddo yn Sili gan ddefnyddio cyllid cynllun graddfa fach Llywodraeth Cymru ac mae achos amlinellol strategol ar gyfer cynllun lefel cymuned wrthi'n cael ei ddatblygu.
- Yn yr un modd, cwblhawyd Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer gosod mesurau lliniaru llifogydd eiddo mewn 180 eiddo yn Ninas Powys a disgwylir cyflwyniadau tendr ddechrau 2023.

140. A yw cwblhau'r adroddiadau hyn wedi helpu i godi proffil materion perygl llifogydd ac wedi cynorthwyo penderfyniadau mewn meysydd fel blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn eich awdurdod?

- Mae'r adroddiadau wedi dylanwadu ar flaenoriaethu darpariaeth cynlluniau, gan arwain at ohirio rhai cynlluniau blaenoriaeth is oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau mewnol.
- Hyd yma, nid oes unrhyw gyllid mewnol ychwanegol wedi deillio o'r ymchwiliadau a19. Fodd bynnag, sicrhawyd cyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r adroddiadau a19 fel tystiolaeth.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**(0 adroddiad a19)**

141. Dim datganiad. Ni luniwyd adroddiad a19 o ganlyniad i stormydd mis Chwefror 2020.

# Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i Adrodd ar Ddigwyddiadau Llifogydd Adran 19

142. Yn rhan o'r adolygiad ehangach yn dilyn digwyddiadau mis Chwefror 2020, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru adolygiad o'i berfformiad ei hun ac i nodi meysydd i'w gwella gan gynnwys meysydd adrodd ôl-ddigwyddiad, adrodd ar effeithiau llifogydd ac ar adroddiadau adran 19 a luniwyd gan yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol.

143. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru wyth maes penodol i adrodd adran 19 lle mae'n teimlo bod angen ystyriaeth bellach.

- Ni ddefnyddir fformat na manyleb gyson gan Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol na'r rhai sy'n cyflawni ar eu rhan.
- Ni ddefnyddir trothwy cyson i sefydlu ymchwiliad adran 19.
- Dim amserlenni sefydlog ar gyfer cyhoeddi adroddiadau adran 19.
- Defnydd cyfyngedig o ganllawiau'r Safon Brydeinig ar ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd gan Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru.
- Dim storfa unigol ar gyfer adroddiadau adran 19 a gyhoeddwyd yng Nghymru.
- Golwg gyfyngedig ar adroddiadau a chamau a nodwyd cyn cyhoeddi.
- Mae adroddiadau adran 19 yn nodi camau ar Awdurdod Rheoli Risg arall neu drydydd parti nad ydynt mewn rhai achosion wedi'u cytuno, yn realistig, wedi'u blaenoriaethu gan arwain o bosibl at godi disgwyliadau i'r darllenydd yn gamarweiniol.
- Dim llywodraethu cyffredin neu annibynnol o'r broses o lunio adroddiadau neu sicrhau cynnwys neu argymhellion.

# Gweithredu Argymhellion Adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o'i ymateb i Lifogydd mis Chwefror 2020

144. Arweiniodd stormydd mis Chwefror 2020 at y llifogydd gwaethaf mewn cof mewn rhannau mawr o Gymru, gan effeithio ar 3,130 eiddo ledled Cymru. Roedd y raddfa mor fawr y gwelwyd lefelau uchaf a gofnodwyd newydd mewn afonydd ledled Cymru a chyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru y nifer fwyaf o rybuddion llifogydd yng Nghymru (Byddwch yn Barod, Rhybuddion a Rhybuddion Llifogydd Difrifol) yn dod i gyfanswm o 430.

145. Yn dilyn llifogydd mis Chwefror 2020, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei adolygiad ei hun o'r digwyddiadau a'i ymateb. Nod yr adroddiadau hyn oedd adolygu perfformiad mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran yr ymateb, eu hasedau a'u staff, ac iddo fod yn adroddiad agored a gonest yn nodi gwersi i'w dysgu o'r digwyddiad arwyddocaol hwn. Cyhoeddodd yr adolygiad 3 adroddiad ym mis Hydref 2020 ynghyd ag adroddiad cryno a 'map stori' a ddarparodd wybodaeth mewn ffordd fwy hygyrch. Mae'r holl adroddiadau wedi'u cyhoeddi ac ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru – **Cyfoeth Naturiol Cymru/Ein hymateb i Storm Ciara a Storm Dennis**:

- Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru: Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru
- Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru: Crynodeb o Ddata Digwyddiadau Llifogydd
- Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru: Adolygiad Rheoli Digwyddiadau Llifogydd
- Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru: Adolygiad Rheoli'r Ystâd Dir
- Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru: Adroddiad Adfer yn sgil Llifogydd
- Map stori: **February 2020 floods in Wales (arcgis.com)**.

146. Nododd yr adolygiad 50 o faterion craidd yn cwmpasu 10 o feysydd allweddol, o gyfathrebu a chyflwyno rhybuddion llifogydd i gapasiti gweithredu, ymateb ac adfer. O'r rhain, nodwyd 74 o gamau gweithredu ar lifogydd penodol ar gyfer gwelliant y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bwrw ymlaen â nhw. Hefyd, nodwyd 20 o gamau yn rhan o waith adfer. Yn rhan o'r adolygiad hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu diweddariad ar ei Raglen Adolygu Llifogydd a Gweithredu Adolygiadau ynghyd â chynnydd yn erbyn y camau a nodwyd.

# Prif Ganfyddiadau

147. Fe wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru grynhoi'r prif faterion yn y meysydd canlynol:

- Diffygion y Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd.
- Capasiti i rybuddio yn effeithiol ac ymateb ar lawr gwlad.
- Angen am fwy o gydnerthedd yn ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i ddigwyddiadau mawr.
- Angen am welliannau o ran paratoi cyn digwyddiad mawr a hefyd yn y cyfnod adfer.
- Mae angen trafodaeth am y goblygiadau i lefel y gwasanaeth y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ei darparu ar hyn o bryd a'r lefel gwasanaeth y gellid ei disgwyl ganddo.

148. Ar ôl cyhoeddi, datblygodd Cyfoeth Naturiol Cymru strwythur llywodraethu prosiect i fynd i'r afael â'r cyfanswm o 94 o gamau gweithredu ar lifogydd wedi'u rhannu ar draws 12 o feysydd gwaith gweithredol yn adrodd yn rheolaidd i Fwrdd, Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd a Thîm Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru (tabl 3). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adrodd bod 79 o'r 94 o gamau adfer ac adolygu llifogydd wedi'u cwblhau a bod 15 cam yn weddill i'w cwblhau ac ar wahanol gamau o gyflawniad.

**Tabl 3: Crynodeb o Feysydd Gwaith**

| Maes Gwaith (WA) | Nifer yr argymhellion |
|---|---|
| WA01 – Gwella Cyfathrebu | 4 |
| WA02 – Ymgysylltiad a Chydnerthedd Cymunedol wrth Adfer | 4 |
| WA03 – Adolygiad o'r Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd | 6 |
| WA04 – Hydrometreg a Thelemetreg | 6 |
| WA05 – Rhagolygon Llifogydd | 7 |
| WA06 – Gweithdrefnau Rheoli Digwyddiadau | 23 |
| WA07 – Cynllunio Adferiad ar gyfer Digwyddiadau yn y Dyfodol | 6 |
| WA08 – Capasiti Gweithredu – pobl | 3 |
| WA09 – Capasiti Gweithredu – Offer a Chyfarpar a Gwasanaethau | 9 |
| WA10 – Gweithrediadau Lleol | 7 |
| WA11 – Amddiffynfeydd a Strategaeth Llifogydd | 5 |
| WA12 – Trosolwg o'n Hadferiad Parhaus | 14 |
| Cyfanswm | 94 |

149. Un agwedd fewnol allweddol i'w chyflawni oedd adolygu ac ychwanegu capasiti at allu ymateb i ddigwyddiadau ar draws y sefydliad. Amlygwyd y gallu i gadw i fyny â maint a graddfa'r digwyddiad a gofynion y gwasanaeth rhybudd llifogydd gan eu hadolygiad ac mewn adborth gan gymunedau ac eraill. Mae hyn wedi arwain at broses ymgynghori mewnol lawn a newid i gytundebau contract o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod niferoedd uwch o staff wedi'u hyfforddi ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymateb i ddigwyddiadau.

150. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru strwythur llywodraethu eglur i gyflawni camau penodol ac ystyriwyd bod rhai yn cael eu darparu trwy weithgareddau busnes arferol. Nodwyd bod y 15 o gamau sy'n weddill angen proffiliau cyflawni tymor hwy oherwydd maint, cost a chymhlethdod ond nid oes unrhyw amserlen wedi'i hamlinellu ar gyfer cwblhau'r camau hyn sy'n weddill. Mae rhai gwelliannau yn gysylltiedig â darpariaeth system gwasanaeth rhybudd llifogydd newydd ledled Cymru. Mae prosiect ar y gweill i ddarparu'r system newydd hon a fydd yn arwain at welliannau a nodwyd o fewn yr adolygiad o'r gwasanaeth rhybudd llifogydd.

151. Er bod cynnydd da wedi cael ei wneud yn erbyn y 94 argymhelliad, yn yr un modd â chamau a nodwyd trwy adolygiadau adran 19 a gyflawnwyd gan Awdurdodau Lleol, mae'r cyflymder y gellir rhoi sylw i'r rhain yn ddibynnol ar gapasiti, adnoddau ac yn erbyn y ddarpariaeth o weithgareddau 'busnes fel arfer' eraill o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Ymgynghoriad Aelodau'r Senedd

152. Yn rhan o'r adolygiad hwn, teimlwyd ei bod yn bwysig clywed lleisiau'r cymunedau hynny sydd wedi cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan ddigwyddiadau llifogydd 2020 a 2021. Er ein bod wedi'n rhwymo gan y cylch gorchwyl a gytunwyd ac er mwyn peidio ag ymestyn yr amserlen i gwblhau'r adolygiad yn afresymol, cytunwyd y byddai swyddogion etholedig yn y Senedd yn cael eu cysylltu i gynnig adborth yn uniongyrchol, gan etholwyr a rhanddeiliaid eraill. Mewn cytundeb â'r Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Aelod Dynodedig dros Blaid Cymru, teimlwyd mai'r ffordd fwyaf priodol ac ymarferol o wneud hyn oedd trwy wahodd cyflwyniadau grwpiau pleidiol ar y cyd.

153. Trwy arweinwyr y pleidiau neu'n uniongyrchol (os nad ydynt wedi'u hymlynu wrth blaid benodol), gwahoddwyd Aelodau o'r Senedd i gyfrannu at yr adolygiad ac ystyried yn benodol y 5 cwestiwn canlynol:

i. A ydych chi'n cefnogi'r gofyniad i Awdurdodau Lleol gynnal ymchwiliadau yn dilyn achosion o lifogydd?

ii. Beth ydych chi'n ei deimlo yw'r manteision/anfanteision o gyflawni adroddiadau ymchwiliad llifogydd a19?

iii. A ydych chi'n teimlo y gellid gwneud gwelliannau i'r broses adrodd a19 bresennol? Os felly, ble?

iv. Pa mor bwysig ydych chi'n ei ystyried yw cwblhau'r adroddiadau hyn o ran blaenoriaethu a chodi ymwybyddiaeth ehangach o reoli perygl llifogydd mewn cymunedau?

v. Pa ddulliau amgen fyddech chi'n eu hawgrymu i ymdrin â'r broses ymchwiliad llifogydd a19 bresennol?

154. Derbyniwyd amrywiaeth eang o wybodaeth a safbwyntiau mewn ymateb i'r gwahoddiad. Darparodd lawer ymatebion uniongyrchol i'r cwestiynau a godwyd a darparodd eraill wybodaeth ychwanegol hefyd ar ffurf astudiaethau achos, adroddiadau a thystiolaeth unigol y rhai a oedd wedi cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan lifogydd.

155. Mae'r rhain yn cynnwys manylion heriau personol penodol o achosion penodol o lifogydd, perfformiad amddiffynfeydd a strwythurau unigol, pryderon ynghylch cost ac argaeledd yswiriant mewn ardaloedd a effeithir gan lifogydd, gollyngiadau o orlifoedd carthffosydd cyfunol a llifogydd i seilwaith.

156. Croesewir yr holl wybodaeth ac mae'n helpu i lunio darlun ehangach o'r heriau y mae cymunedau yn eu hwynebu mewn ymateb i lifogydd ac yn darparu cyd-destun defnyddiol ar yr amrywiaeth o effeithiau y mae llifogydd yn eu cael pan fyddant yn effeithio ar gymunedau. Er ei bod o ddiddordeb ac o ddefnydd, mae rhywfaint o'r wybodaeth hwn y tu hwnt i'r cwmpas a'r cylch gorchwyl a gytunwyd ar gyfer yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae'n pwysleisio'r heriau ehangach sy'n wynebu rheoli llifogydd a dŵr mewn cymunedau ac ar draws dalgylchoedd.

157. Wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion penodol hyn, dylid nodi bod archwiliadau ac adolygiadau cyfochrog yn cael eu cynnal sydd naill ai wedi trafod rhai o'r agweddau hyn neu a fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol ac felly yn unol â'r cylch gorchwyl a gytunwyd byddent yn cael eu hystyried y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn. Mae hyn yn cynnwys gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

158. O adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd, ceir chwe thema allweddol gyffredin sy'n benodol i'r broses adrodd ond sydd hefyd yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth ehangach o weithgareddau perygl llifogydd ar draws Awdurdodau Rheoli Risg:

- Prydlondeb adroddiadau
- Cysondeb adroddiadau a throthwyon ar gyfer sefydlu adroddiad a19
- Bod yn agored a thryloyw
- Adborth ar adroddiadau a'u hygyrchedd
- Y gallu i'r cyhoedd gymryd rhan
- Sgiliau a Chapasiti mewn Awdurdodau Rheoli Risg

159. Mae llawer o'r themâu a nodwyd yn cyfateb i'r rhai a nodwyd mewn ymatebion gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chan Awdurdodau Lleol eu hunain. Cydnabyddir y themâu ac maent wedi bod yn her i Awdurdodau Rheoli Risg ers sefydlu'r broses adroddiadau adran 19 o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn 2010.

160. Yn y Strategaeth Genedlaethol bresennol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, nodwyd mesur yn benodol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. **"Rydym am i adroddiadau ymchwilio adran 19 fod yn symlach i Awdurdodau Lleol eu cynnal ac yn haws i'r cyhoedd eu deall"**. O fan Fesur 21, ceir gofyniad i ddatblygu gofynion lefel uchel a chanllawiau ategol ar gyfer adroddiadau ymchwiliad llifogydd adran 19.

161. Nodir bod gwaith i ddatblygu'r mesur hwn yn cael ei arwain gan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn gweithio ochr yn ochr â CLlLC ac Awdurdodau Lleol. Mae'r gallu i gyflawni'r adroddiadau hyn yn effeithlon yn dibynnu ar lefelau digonol o staff â'r wybodaeth, y sgiliau a'r arbenigedd technegol angenrheidiol mewn timau Awdurdod Lleol. Nodwyd bod hybu'r adnoddau medrus hyn fel mater ar draws y diwydiant cyfan, un sydd eisoes yn cael ei flaenoriaethu gan bob Awdurdod Rheoli Risg a'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol trwy gyfleoedd hyfforddi penodol i lifogydd a gweithio gyda'r byd academaidd, darparwyr addysg a darparwyr arbenigol.

162. Amlygir symleiddio'r broses o adrodd, adolygu'r trothwyon ar gyfer cyflawni adroddiadau adran 19 a chynnig cyfle ar gyfer dull mwy cyson ymhlith Awdurdodau Lleol fel maes sy'n peri dryswch o fewn y broses. Mae'r ddeddfwriaeth ei hun yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth eang o hyblygrwydd yn llawer o'r meysydd hyn. Gall Awdurdodau Lleol benderfynu eu hunain i ba raddau y gallent ddymuno ymchwilio, nodi ffynhonnell y llifogydd a, phan fo'n briodol, cyhoeddi canfyddiadau.

163. Bydd i ba raddau y gallai Awdurdodau Lleol ddewis gwneud hyn yn cael ei ysgogi gan lawer o ffactorau, ac nid leiaf y capasiti i wneud hynny. Mae adborth yn dynodi y gallai fod disgwyliad y dylai pob achos o lifogydd gael ei ymchwilio, ond nid oes unrhyw drothwy wedi'i bennu mewn deddfwriaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i hyn ddigwydd. Fodd bynnag, ceir disgwyliad yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru y dylai'r ymchwiliadau hyn gael eu cynnal lle mae mwy nag 20 o gartrefi mewn un ardal yn cael eu heffeithio.

164. O ran mwy o gysondeb yn y broses adrodd ledled Cymru, mae cwestiwn yn parhau hefyd ynghylch diben yr adroddiadau hyn. O gofio bod y ddeddfwriaeth yn nodi'r angen i gyhoeddi, ceir disgwyliadau uwch ymhlith y cyhoedd yn ehangach o bosibl o ran cynnwys ymchwiliad adran 19. Pa un a ydynt yn adroddiad cwbl ffeithiol o'r digwyddiad llifogydd, gan nodi'r Awdurdodau Rheoli Risg dan sylw a pha un a ydynt yn bwriadu cyflawni eu swyddogaethau neu a ddylent gynnwys mwy o fanylion ac amlinellu pa waith allai ddilyn yn y dyfodol.

165. Mae'r Sefydliad Safonau Prydeinig wedi datblygu safon yn cefnogi ymchwiliadau ar ôl digwyddiad llifogydd. Mae'n aneglur pan un a yw Awdurdodau Lleol yn dilyn y canllawiau hyn, ond mae Mesur 21 y Strategaeth Genedlaethol eto yn ymdrin â'r mater o gysondeb trwy nodi'r angen i 'ddatblygu gofynion lefel uchel a chanllawiau ategol ar gyfer adroddiadau ymchwiliad llifogydd adran 19' gan gefnogi ymdrech i sicrhau cysondeb.

166. Mae prydlondeb cyhoeddi ymchwiliadau a'r gallu i ymgynghori unwaith eto yn cefnogi datblygiad dull cyson. Nid yw'n syndod yr hoffai'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd rannu eu profiadau ac yr hoffent weld eu safbwyntiau yn cael eu hystyried yn rhan o'r broses. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes unrhyw reswm pam na all hyn ddigwydd eisoes a mater i bob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol unigol fyddai penderfynu i ba raddau y byddent yn dymuno ymchwilio. Mae rhai awdurdodau yn dewis casglu adborth gan ardaloedd a effeithiwyd trwy ddefnyddio holiaduron i ddeall mecanweithiau llifogydd yn well ac i gofnodi maint yr ardaloedd a effeithiwyd.

167. Efallai y bydd hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol i'w gyflawni'n effeithiol ac yn sgil hynny gallai hefyd arwain at amserlen estynedig gan arafu'r broses. Fodd bynnag, yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol fyddai'n gyfrifol am wneud y penderfyniad ynghylch sut mae'n cynnal unrhyw adolygiad.

168. Pan fo adroddiadau ymchwilio yn cael eu cyhoeddi, dylai'r Awdurdod Lleol hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Dylent hefyd hysbysu Awdurdodau Rheoli Risg eraill a allai fod â swyddogaeth rheoli perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad. Byddai'r penderfyniad ar sut i gyhoeddi yn benderfyniad i bob Awdurdod Lleol ac er bod llawer ar gael ar wefannau Awdurdodau Lleol, nid yw eraill. Yn aml, gall hyn olygu nad yw'r cyhoedd a'r cymunedau hynny sydd wedi'u heffeithio yn uniongyrchol yn ymwybodol o ganlyniadau ymchwiliad, pa un a oes unrhyw gamau pellach yn debygol o ddilyn a phryd y gallent gael eu cymryd.

169. Byddai dull cyson o gyhoeddi adroddiadau a'u gwneud ar gael yn cynorthwyo'r cymunedau hynny sy'n cael eu heffeithio a chyflawniad unrhyw gamau pellach arfaethedig. Byddai cael yr holl adroddiadau a gyhoeddwyd mewn un lleoliad hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r mater o fod yn agored a thryloyw er y cydnabyddir y byddai'n ofynnol i unrhyw ganoli o'r fath gyd-fynd â pholisïau a chanllawiau Awdurdodau Llleol unigol.

# Casgliadau a'r Camau Nesaf

170. Sefydlwyd yr adolygiad hwn i fodloni'r ymrwymiad penodol a gyflwynwyd yng Nghytundeb Cydweithio Llafur-Plaid Cymru yn 2021 i gefnogi a hysbysu gwaith ehangach i leihau a mynd i'r afael â'r perygl o lifogydd i gymunedau a busnesau. Rhoddwyd cylch gorchwyl eglur i'r Adolygiad yn ystod haf 2022 ac mae wedi cyflawni yn erbyn y rheini. Mae'r broses Adolygu yn dod i ben nawr.

171. Mae'r cylch gorchwyl yn fy nghyfarwyddo i adeiladu ar adolygiadau blaenorol (gweler paragraff 56 e y cylch gorchwyl) ac rwy'n cael fy ngwahodd yn eglur i wneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau cymaint o werth am arian â phosibl. Ceir gofyniad hefyd i mi osgoi, cyn belled ag y bo'n bosibl, ailadrodd adroddiadau eraill a gynhaliwyd, sydd ar y gweill neu sydd yn yr arfaeth (gweler paragraff 56 f y cylch gorchwyl) a allai fod yn berthnasol i gwmpas ac amcanion yr adolygiad hwn. Mae'r croestoriadau hyn yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol, eu hadolygiadau, y Pwyllgor Seilwaith Cenedlaethol, ei adolygiad, asesiad ac archwiliad Archwilio Cymru a gwaith Comisiwn y Gyfraith. Mae hwn yn amgylchedd hynod gymhleth o unrhyw safbwynt, â llawer wedi ei wneud, llawer yn cael ei wneud a llawer i'w wneud.

172. Nododd adolygiad mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru strwythur llywodraethu eglur i gefnogi cyflawniad 94 o gamau a nodwyd. Trwy'r wybodaeth a ddarparwyd, maent wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y camau hyn ac mae 15 yn weddill. Fodd bynnag, nid oes unrhyw amserlen wedi'i chyflwyno o ran cyflawni'r camau hyn sy'n weddill, dim ond y byddant yn cymryd mwy o amser i'w cyflawni oherwydd eu maint, eu cost a'u cymhlethdod. Rwy'n cydnabod bod cymhlethdod yn arwain at ansicrwydd ac yn sgil hynny mae'n bosibl iawn y gallai effeithio ar amserlenni cyflawni, ond byddwn yn argymell bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu rhagolwg realistig o gyflawniad y 15 cam sy'n weddill ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau a allai effeithio ar unrhyw amserlen.

173. Mae'r adroddiadau adran 19 yn rhan fach o'r darlun llawer mwy hwnnw, un darn yn jig-so'r amgylchedd rheoli perygl llifogydd ehangach. Maent yn un rhan yn unig o'r broses adrodd, ac eto'n rhan bwysig sy'n cyflawni swyddogaethau lluosog i gynnig rhywfaint o esboniad ynghylch 'pam' a 'sut' y gallai llifogydd fod wedi digwydd ond hefyd yn cynnig cofnod hanesyddol manwl, technegol weithiau, y gall Awdurdodau Rheoli Risg ei ddefnyddio i gefnogi'r defnydd o'u pwerau caniataol i leihau perygl yn y dyfodol.

174. Rwy'n canolbwyntio ar y bobl, y busnesau, y lleoedd a'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd a hyn sydd wedi hysbysu fy null. Ni fydd canolbwyntio ar faterion technegol a amlinellir mewn adroddiadau penodol yn hytrach nag ystyried y materion strategol a fframweithiau cyffredin yn cyflawni newid.

175. Un thema reolaidd drwy'r adolygiad hwn o hyd yw diffyg cysondeb o ran drafftio adroddiadau. Diffyg cysondeb yn y dull a fabwysiadir yn yr ymchwiliad a llunio'r adroddiadau adran 19. Mae'r amrywiadau hyn yn debygol o ddeillio o wahanol ddealltwriaeth ynghylch diben, paratoad, disgwyliad, arddull, cynnwys, awduraeth, dehongliadau, diffiniadau, amserlenni ac adnoddau sydd ar gael ac wedi'u neilltuo. Rhywbeth nad yw'n cael ei helpu gan y natur agored y caiff y ddeddfwriaeth ei drafftio ynddi. Rwy'n argymell bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Chomisiwn y Gyfraith i ddarganfod a fyddai budd o adolygu'r ddeddfwriaeth perygl llifogydd ehangach yng Nghymru o ganlyniad i'r bygythiad cynyddol o'r newid yn yr hinsawdd.

176. Mae angen dull Cymru gyfan i roi cysondeb ac eglurder i'r broses. I lunio canllawiau a/neu ddylunio fframwaith statudol sy'n cyflwyno disgwyliadau eglur, yn diffinio paramedrau sbarduno, yn gorfodi amserlen ar gyfer cwblhau, yn nodi cynnwys hanfodol, yn cynghori ar adnoddau, yn nodi awduraeth, yn dynodi'r arbenigedd sy'n ofynnol, ac yn llywio disgwyliadau.

177. Mae Mesur 21 y Strategaeth Genedlaethol yn nodi'r angen am adolygiad o'r broses ymchwiliadau adran 19, a byddwn yn cefnogi ac yn argymell eu bod yn ystyried y gofynion a nodir uchod wrth gwblhau'r gwaith hwn.

178. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol sy'n codi, fel diben, defnydd a lleoliad o fewn y seilwaith/seilweithiau monitro llifogydd ehangach. Yn hollbwysig, mae natur ac ansawdd yr adroddiadau yn ddibynnol ar sgiliau, gwybodaeth, capasiti ac adnoddau. Materion craidd sydd y tu hwnt i gylch gwaith yr adolygiad annibynnol hwn ond a nodwyd mewn adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru ac a amlygwyd fel meysydd gwaith i roi sylw iddynt o fewn gwaith arall sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Phwyllgor Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Rwy'n argymell y dylai'r rhain fod yn feysydd o flaenoriaeth i'r ddau Bwyllgor.

179. Dylai hefyd roi sylw i'r mater o fod yn agored ac yn hygyrch, y gallu i'r rhai sy'n cael eu heffeithiau gael mynediad rhwydd at unrhyw adolygiadau a gyhoeddwyd a deall casgliadau y daethpwyd iddynt. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod disgwyliadau yn gysylltiedig â chynnwys adroddiad adran 19 yn amrywio'n eang rhwng ymarferwyr, swyddogion etholedig ac aelodau'r cyhoedd gan bwysleisio'r angen i roi sylw i'r mater craidd yn ymwneud â diben yr adroddiadau hyn.

180. Mae cwestiynau eraill yn codi o ran pwy fyddai'n asesu ansawdd a derbynioldeb yr adroddiadau adran 19, beth yw'r fframwaith ar gyfer monitro unrhyw ganlyniadau neu gamau yn y dyfodol ar ôl cyhoeddi. Mae angen i rannu unrhyw wersi a ddysgwyd a materion cyffredin ar draws gweddill Cymru fod yn fudd gwirioneddol o lunio'r adroddiadau hyn. Mae hyn yn cyfeirio yn ôl at y pwynt canolog o ddiffinio'r diben, ond mae hefyd yn amlygu'r angen am gydgysylltiad Cymru gyfan rhwng Awdurdodau Rheoli Risg ac arweinydd i gael ei sefydlu a all adolygu cynnydd a rhannu materion cyffredin.

181. I gefnogi'r mater o fod yn agored a thryloyw, byddwn yn argymell bod angen ystyried y mater o gyhoeddi a'i gynnwys o fewn cwmpas Mesur 21 a nodwyd yn y Strategaeth Genedlaethol. Dylai adroddiadau cyhoeddedig a'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ynddynt fod ar gael yn rhwydd i bawb ac yn elwa o fynediad o un pwynt. Dylid archwilio sut y gellid cyflawni hyn a pha un a ddylai hyn fod yn rhan o fframweithiau adrodd ar reoli perygl llifogydd ehangach.

182. I grynhoi, rwy'n cynghori bod angen safbwynt cyffredin ar ddiben, swyddogaeth a statws yr adroddiadau adran 19. Mae angen eglurder ynghylch ble mewn gwirionedd y maent yn ffitio yn yr ecosystem rheoli risg. Mae'r ecosystem bresennol yn seiliedig ar groestoriadau a chysylltiadau cymhleth sydd, mewn gwirionedd, wedi'u heithrio o gwmpas yr adolygiad hwn: er enghraifft, rhwng Awdurdodau Lleol, LlC, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill; rhwng Polisi a Strategaeth Llifogydd a Gweithrediad Llifogydd; rhwng yr adroddiadau adran 19 ac adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru; rhwng risg a malltod; rhwng cyfrifoldeb ac atebolrwydd a rhwng llifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol eraill.

# Safbwyntiau a Sylwadau

183. Gan fod hwn yn adolygiad annibynnol wrth ddesg, nid yw'r Athro Evans yn bwriadu ymgynghori yn ffurfiol ar y canfyddiadau na'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r Adolygiad wedi elwa o dystiolaeth a safbwyntiau ysgrifenedig gan swyddogion etholedig, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol. Darparodd gwybodaeth bellach a gyflwynwyd y tu hwnt i'r cwestiynau a ofynnwyd gan gynnwys gwybodaeth astudiaethau achos, gyd-destun defnyddiol ond roedd y tu allan i'r cwmpas a gytunwyd. Efallai fod gan lawer o bobl safbwyntiau ar y pwyntiau a wneir yn yr adroddiad hwn. Dylid cyfeirio'r rhain, yn y lle cyntaf, at Gangen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru fel yr adran arweiniol ar gyfer materion llifogydd: **RisgLlifogyddArfordirol@llyw.cymru**

# Atodiad A

## Tabl 4: Nifer yr adroddiadau A19 a gynhyrchwyd rhwng Chwefror 2020 a Hydref 2021 gan bob Awdurdod Lleol (Ebrill 2023)

| | Statws Adroddiad Adran 19 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | Heb Gychwyn | Yn parhau/ar ffurf drafft | Yn disgwyl cymera-dwyaeth | Cwblhawyd, ddim yn bwriadu cyhoedd | Cyhoeddwyd | Cyfanswm | Trothwy Adrodd A19 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | | | | | 1 | 1 | 20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | | | | | 1 | 1 | 20 |
| Cyngor Sir Gaerfyrddin | | 1 | | | | 1 | 20 |
| Cyngor Caerdydd | | | | | | 0 | 20 |
| Cyngor Sir Ceredigion | | | | | | 0 | 10 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | | | 0 | 23 | 11 | 34 | 5 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | | | 4 | | | 4 | 20 |
| Cyngor Sir Ddinbych | | | | | 2 | 2 | 20 |
| Cyngor Sir y Fflint | 1 | | | | | 1 | 10 |
| Cyngor Gwynedd | | | | 18 | 17 | 35 | 1 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | | 20 | | 2 | 14 | 36 | 1 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | | | | | 1 | 1 | 20 |
| Cyngor Sir Fynwy | | | | | 11 | 12 | 20 |

| | Statws Adroddiad Adran 19 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | Heb Gychwyn | Yn parhau/ar ffurf drafft | Yn disgwyl cymera-dwyaeth | Cwblhawyd, ddim yn bwriadu cyhoedd | Cyhoeddwyd | Cyfanswm | Trothwy Adrodd A19 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | | 1 | | | 2 | 3 | 5 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | | 1 | | | | 2 | 20 |
| Cyngor Sir Penfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 |
| Cyngor Sir Powys | | 4 | | | | 4 | Amh. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | | | | | 20 | 20 | 20 |
| Dinas a Sir Abertawe | | | 1 | | 1 | 2 | 5 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | | | | | | 0 | 20 |
| Cyngor Bro Morgannwg | | 2 | | | 3 | 5 | 9 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | | | | | | 0 | |
| **Cyfanswm** | 2 | 34 | 8 | 43 | 84 | 164 | |

# Atodiad B

## Dolenni Defnyddiol

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru – **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru | LLYW.CYMRU**

Asesu Perygl Llifogydd Cymru (Map Llifogydd) – **Cyfoeth Naturiol Cymru/Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru)**

Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2022 i 2023 – **Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2022 i 2023 | LLYW.CYMRU**

Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2023 i 2024 – **Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2023 i 2024 | LLYW.CYMRU**

Gwybodaeth ac Adroddiadau Llifogydd Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – **Atodiad 1.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – **Llifogydd – CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Digwyddiad Llifogydd – Erw Hir, Heol Llangrallo, Bracla 1/11/12 – 3/11/12 (bridgend.gov.uk**)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – **Ymchwiliadau i Lifogydd wedi'u Cwblhau**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – **Caerffili – Bwrdeistref Sirol Caerffili**
- Cyngor Caerdydd – **Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (caerdydd.gov.uk)**
- Cyngor Sir Gaerfyrddin – **Strategaeth a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd (llyw.cymru), s19-storm-callum-vp223.pdf (llyw.cymru)**
- Cyngor Sir Ceredigion – **Rheoli Perygl Llifogydd Lleol – Cyngor Sir Ceredigion**
- Cyngor Sir Ddinbych – **Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniad – ADRODDIAD YMCHWILIAD ADRAN 19 AR LIFOGYDD MIS CHWEFROR 2020 YN SIR DDINBYCH**
- Cyngor Sir y Fflint – **Llifogydd (siryfflint.gov.uk)**
- Cyngor Gwynedd – **Adroddiadau ymchwilio llifogydd (llyw.cymru)**
- Cyngor Sir Ynys Môn – **Adroddiadau ymchwilio i lifogydd a chofrestr asedau (llyw.cymru)**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – **Adroddiad A19 Storm Dennis Fersiwn 3 (merthyr.gov.uk)**

- Cyngor Sir Fynwy – **Adroddiadau Ymchwilio Llifogydd – Sir Fynwy**
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot – **Ymchwilio i Lifogydd – Cyngor Castell-nedd Port Talbot (npt.gov.uk)**
- Cyngor Dinas Casnewydd – **Llifogydd | Cyngor Dinas Casnewydd**
- Cyngor Sir Penfro – **Llifogydd – Cyngor Sir Penfro**
- Cyngor Sir Powys – **Delio ag Argyfyngau – Llifogydd – Cyngor Sir Powys**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – **Adroddiadau Archwilio Llifogydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)**
- Cyngor Abertawe – **Ymchwilio i Lifogydd – Abertawe**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – **Adroddiad ar Ymchwiliad i Lifogydd – Cwmbrân | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
- Cyngor Sir Bro Morgannwg – **Adroddiadau Ymchwiliadau Llifogydd (valeofglamorgan.gov.uk)**
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – **Dolenni – Llifogydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Adolygiad 2020 Cyfoeth Naturiol Cymru – **Cyfoeth Naturiol Cymru/Adolygiad o lifogydd mis Chwefror 2020 (Storm Ciara a Dennis)**

Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru Adroddiad Terfynol yr Is-bwyllgor Adnoddau – **adnoddau-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru-adroddiad-terfynol.pdf (llyw.cymru)**

Archwilio Cymru – **Darlun o Reoli Perygl Llifogydd**

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – **Gwaith wedi'u gwblhau ac adroddiadau cyhoeddedig – Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (senedd.cymru)**

## Rhestr Ymgyngoreion

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Sir Gaerfyrddin

Cyngor Caerdydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Abertawe

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Grŵp y Blaid Geidwadol (Andrew RT Davies AS)

Grŵp y Blaid Lafur (Mark Drakeford AS)

Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol (Jane Dodds AS)

Plaid Cymru Annibynnol (Rhys ab Owen AS)

Grŵp Plaid Cymru (Adam Price AS)

Plaid Cymru (Heledd Fychan AS)

# Termau Defnyddiol

| | |
|---|---|
| Achos Cyfiawnhad Busnes | I alluogi defnydd cymesur o ddulliau gwerthuso ar gyfer prosiectau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol llai, symlach a llai dadleuol, datblygwyd proses Cyfiawnhad Busnes fel opsiwn yn hytrach na'r broses tri cham lawn y Canllawiau Achos Busnes Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. |
| Achos Busnes Llawn | Yn cynnwys prisiau'r farchnad a ganfuwyd o'r ymarfer caffael, amodau terfynol unrhyw gytundebau neu gydsyniadau cyfreithiol, a chynllun cyflawni a rheoli wedi'i gwblhau. |
| Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol | Pwyllgor annibynnol a sefydlwyd i ddarparu cyngor i'r Gweinidog. |
| Afonol | Llifogydd a achosir gan afon |
| Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol | Yn crynhoi'r gwerthusiad o'r Rhestr Fer o opsiynau a dewis yr Opsiwn a Ffefrir. Achos Busnes a ddatblygwyd i'r lefel Achos Busnes Amlinellol yw'r sail ar gyfer gwneud penderfyniad i Ganllaw Achos Busnes 5 Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol symud ymlaen i gam pellach (dyluniad mwy manwl) a chaffael yr Opsiwn a Ffefrir. Mae'r cyfuniad o'r camau Achos Amlinellol Strategol ac Achos Busnes Amlinellol yn cyfateb yn gyffredinol i Adroddiad Arfarnu Prosiect a ddefnyddiwyd yn flaenorol mewn gwerthusiadau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. |
| Lliniaru Llifogydd Eiddo | Yn cynnwys: Mesurau Ymwrthedd ac Adferadwyedd. |
| Cydnerthedd Lefel Eiddo | Mesurau Adferadwyedd. |
| Glawog | Llifogydd dŵr wyneb. |
| Awdurdodau Rheoli Risg | Diffinnir y rhain o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. I ni, mae hyn fel rheol yn cyfeirio at Dimau Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru (28 yng Nghymru – Cyfoeth Naturiol Cymru, 22 x ALl, 4 cwmni dŵr a Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd. |
| Achos Amlinellol Strategol | Caiff hwn ei baratoi ar ddechrau prosiect i ddarparu'r achos strategol dros newid, i nodi amcanion y prosiect, i nodi a gwerthuso Rhestr Hir o opsiynau i ddangos hyfywedd prosiect. Achos Busnes a ddatblygwyd i lefel Achos Amlinellol Strategol yw'r sail ar gyfer gwneud penderfyniad i symud ymlaen i werthusiad prosiect llawnach.<br><br>Bydd Achos Amlinellol Strategol ac Achos Busnes Amlinellol yn aml yn cael eu hariannu gyda'i gilydd o dan un grant, ond bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gwblhau Achos Amlinellol Strategol a'i gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth cyn symud ymlaen i Achos Busnes Amlinellol.<br><br>Bydd Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol neu Achos Cyfiawnhad Busnes yn cael ei gwblhau, nid y ddau. |